Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Craffu ar Gyfrifon – Llywodraeth Cymru 2021-22

Hydref 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCCGG@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddArchwilio**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Craffu ar Gyfrifon – Llywodraeth Cymru 2021-22

Hydref 2023

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

---

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mark Isherwood AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Adam Price AS**
Plaid Cymru



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Mabon ap Gwynfor AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd** .....5

**Argymhellion** ..... 7

**1. Cyflwyniad** .....12

**2. Barn Archwilydd Cyffredinol Cymru** .....13

**3. Llunio'r Cyfrifon** .....15

Cyhoeddi'r amserlen .....15

Cynnwys .....16

Gwariant Grant .....17

Asedau .....19

Grŵp Llywodraeth Cymru .....19

Cydymffurfio â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM .....21

Adrodd cynnydd a chyflawni yn erbyn y Rhaglen Lywodraethu .....22

Adroddiad ar Alldro .....23

Gweithredu argymhellion y Pwyllgor .....24

Ein barn ni .....25

**4. Tâl Cydnabyddiaeth Uwch-swyddogion** .....30

Y cefndir .....30

Ymateb Llywodraeth Cymru .....31

Adroddiad ACC 2021-22 .....32

Adroddiad Staff a Thaliadau Cydnabyddiaeth .....33

Gwrthod Cydsyniad .....33

Ymddeoliad Rhannol .....35

Datganiad Polisi Tâl .....36

Ein barn ni .....37

**5. Tryloywder ........ 39**

Y Bwrdd a Phwyllgorau eraill ........ 39

Aelodaeth y Bwrdd ........ 42

Gwrthdaro buddiannau ........ 43

Archwilio Mewnol ........ 45

Risgiau ........ 48

Ein barn ni ........ 50

**6. Adrodd ar Berfformiad ........ 53**

Cynnydd ........ 53

Adrodd ........ 55

Ein barn ni ........ 56

**7. Colledion, diddymiadau a thaliadau arbennig ........ 58**

Colledion a diddymiadau ........ 58

Adfachu ........ 60

Taliadau arbennig ........ 60

Ein barn ni ........ 62

**8. Cynllunio'r gweithlu ........ 65**

Cefndir ........ 65

Canfyddiadau ........ 67

- Costau staff ........ 67
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth ........ 69
- Adnoddau staff, recriwtio a lleoli ........ 71
- Lles staff a'r arolwg staff ........ 76
- Cynllunio'r gweithlu'n strategol ........ 77

Gwybodaeth reoli ........ 79

Ein barn ni ........ 81


# Rhagair y Cadeirydd

Mae’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus wedi gwneud ei waith craffu ar Gyfrifon Cyfunol 2021-22 Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chyfrifon cyfunol (y “Cyfrifon”) bob blwyddyn, sy’n amlinellu ei chyllid a’i rhwymedigaethau statudol.

Er eu bod yn cydymffurfio â gofynion adrodd ac rydym yn cydnabod ymdrechion i'w symleiddio, credwn y dylai Llywodraeth Cymru adolygu cynnwys ei chyfrifon, yn ogystal â sut y mae'n eu cyflwyno, i wella hygyrchedd. Mae llawer o'n gwaith craffu wedi canolbwyntio ar yr angen i'r cyfrifon adrodd yn gliriach y stori am wariant Llywodraeth Cymru a'r hyn y mae wedi'i gyflawni. Mae llawer o'n canfyddiadau'n tynnu sylw at yr angen i gynnwys gwybodaeth ychwanegol yn y cyfrifon i gynorthwyo dealltwriaeth o hyn. Yn ei Chyfrifon, mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at adroddiadau eraill y mae'n eu cyhoeddi am ei chyflawniad a’i gweithgareddau, a chyflawniad a gweithgareddau’r Gwasanaeth Sifil. Rydym yn rhannu barn y Pwyllgor a’n rhagflaenodd y dylid cyhoeddi'r rhain ochr yn ochr â'r cyfrifon ac rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithredu hyn pan fo'n bosibl fel y gellir ystyried y dogfennau hyn gyda'i gilydd. Dylai hyn roi trosolwg clir i randdeiliaid, gan gynnwys y Pwyllgor hwn, o sut y mae'r wybodaeth yn uno i gyflwyno trosolwg ehangach o gyllid a gweithgareddau Llywodraeth Cymru.

Yn yr un modd, rydym yn ailadrodd ein galwadau blaenorol a galwadau’r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a’n rhagflaenodd, i Lywodraeth Cymru gynyddu tryloywder drwy roi gwybodaeth amserol am ei chyfarfodydd Bwrdd. Gofynnwn hefyd i wybodaeth am gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg gael ei chyhoeddi. O leiaf, dylai hyn gynnwys yr agenda ynghyd â chrynodeb priodol o'r trafodaethau a'r materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny.

Yn olaf, mae'n destun gofid bod y Pwyllgor wedi teimlo'r angen i ailadrodd pedwar argymhelliad a wnaed i Lywodraeth Cymru wrth graffu ar gyfrifon blaenorol. Bwriedir i’n canfyddiadau a'n hargymhellion gefnogi gwelliant a mwy o dryloywder mewn adroddiadau ariannol. Mae’n rhaid i Lywodraeth Cymru ddangos, gyda'i gweithredoedd, barch at y gwaith craffu a wneir gan y Senedd a dangos yn fwy effeithiol sut y mae'n gweithio i gydymffurfio ag argymhellion y Pwyllgor.



**Mark Isherwood AS,**

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifion Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu cynnwys ei chyfrifon i sicrhau ei fod yn adrodd yn iawn y stori am ei gwariant a'r hyn y mae wedi'i gyflawni. Dylai Llywodraeth Cymru, yn benodol, ystyried y wybodaeth y mae'n ei chynnwys am ei chyllid grant, sy'n rhoi cyfrif am gyfran sylweddol o'i gwariant ond nid adlewyrchir hyn yng nghydbwysedd y wybodaeth yn y cyfrifon. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall gyflwyno ei chyfrifon mewn modd mwy hygyrch. Gellid cyflawni hyn drwy ddogfennau cryno neu offer rhyngweithiol ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth yn gliriach, yn hytrach na chynnwys y copi PDF yn unig o'r cyfrif llawn, fel y mae'n gwneud ar hyn o bryd. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu lincs i'r cyhoeddiadau a'r adroddiadau y mae'n cyfeirio atynt yn ei chyfrifon, gan fod y Pwyllgor o'r farn ei bod yn anodd dod o hyd i ddogfennau allweddol ar wefan Llywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd adolygu ei gwefan i sicrhau ei bod yn haws i bobl ei llywio a dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd argymhelliad y Pwyllgor a'i rhagflaenodd ar gyhoeddi'r Adroddiad ar Alldro. Er ein bod yn cydnabod y rhwystrau ymarferol i gyhoeddi pob adroddiad ariannol ar yr un pryd, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cyhoeddi'r dogfennau hyn naill ai ar yr un pryd neu mor agos â phosibl at ei gilydd. Yn benodol, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Hadroddiad ar Alldro cyn gynted â phosibl ar ôl gosod ei chyfrifon bob blwyddyn ac yn ddigon prydlon i alluogi'r Pwyllgor i ystyried ei gynnwys cyn ei sesiynau craffu ar y cyfrifon. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 5.** Er mwyn galluogi'r darllenydd i weld gwerth yr ystod o asedau gwahanol sydd wedi'u cynnwys yn y categori asedau ac i hwyluso gwaith craffu, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys dadansoddiad o'r 'Asedau Ariannol Eraill' ar gyfer ei sefyllfa graidd yn ei chyfrifon. ........ Tudalen 28

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys gwybodaeth, yn ei chyfrifon, am effaith newidiadau i gyfansoddiad ei Grŵp ar ei drafodiadau ariannol a'i falansau a adroddwyd. ........................................ Tudalen 29

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu i'r Pwyllgor, ar yr adeg y mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn cymeradwyo ac yn llofnodi Cyfrifon 2022-23 os nad cyn hynny, ddiweddariad am yr argymhellion a wnaed ganddo a'r Pwyllgor a'i rhagflaenodd yn dilyn gwaith craffu ar y cyfrifon nad yw wedi'u gweithredu eto. Dylai'r diweddariad hwn gynnwys esboniad pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu eto ar argymhelliad y Pwyllgor, yn ogystal â'r amserlen arfaethedig ar gyfer ei weithredu........................................ Tudalen 29

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd argymhelliad y Pwyllgor a'i rhagflaenodd ar ofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor o ofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y mae'n ceisio cydymffurfio â hwy wrth lunio ei chyfrifon. Dylai hefyd hysbysu'r Pwyllgor am newidiadau i'w phenderfyniadau, neu yn sgil gofynion newydd y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, pan gyhoeddir y cyfrifon. Dylid darparu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl cyn Cyfrifon 2023-24. ........................................ Tudalen 29

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth ynghylch pwy a gymeradwyodd gais y Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg am ymddeoliad rhannol a sicrwydd nad yw'r materion a nodwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â threfniadau gweithio'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol o 1 Ebrill 2018 yn gymwys yn yr achos hwn. Rydym yn gofyn am ragor o wybodaeth am y rôl hon ac rydym yn nodi ei bod bellach yn cael ei chyflawni'n rhan-amser. ........................................ Tudalen 38

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cyhoeddi'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mawrth erbyn i'r Ysgrifennydd Parhaol gymeradwyo a llofnodi'r Cyfrifon ar gyfer yr un flwyddyn ariannol. Dylai hyn ddechrau gyda'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2023 a'r Cyfrifon ar gyfer 2022-23. Bydd hyn yn sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu craffu ar y Datganiad Polisi Tâl bob blwyddyn, ochr yn ochr â'r cyfrifon. ........................................ Tudalen 38

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth ynghylch pa mor fuan ar ôl pob cyfarfod Bwrdd y mae'n

bwriadu sicrhau bod yr agenda a'r papurau ar gael i'r cyhoedd yn brydlon. ........ Tudalen 52

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd argymhelliad y Pwyllgor a'i rhagflaenodd ar gyhoeddi cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi, o leiaf, agenda ei Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ynghyd â chrynodeb priodol o'r materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny. Felly, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi'n ôl-weithredol ac yn brydlon yn y dyfodol. ........ Tudalen 52

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu esboniad pam na phenododd Gyfarwyddwr Anweithredol tan fis Mawrth 2022 yn dilyn ymddiswyddiad Jeff Farrar ym mis Awst 2021. ........ Tudalen 52

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru rannu â'r Pwyllgor gasgliadau ei hadolygiad o'i pholisi gwrthdaro buddiannau cyn gynted ag y mae ar gael, gydag esboniad llawn o ddiwygiadau arfaethedig ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael ag adolygiad a chasgliadau ei Gwasanaethau Archwilio Mewnol. ........ Tudalen 52

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn ei chyfrifon lle y mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn darparu sicrwydd cyfyngedig neu ddim sicrwydd, yn ogystal â lle y mae'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn nodi gwendidau sylfaenol. Dylai'r wybodaeth ychwanegol hon gynnwys sylwadau am ymateb y rheolwyr i'r canfyddiadau a sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion a nodwyd. ........ Tudalen 52

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd argymhelliad y Pwyllgor a'i rhagflaenodd ar adrodd risgiau. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys crynodeb o'r prif risgiau a newidiadau iddynt yn ystod cyfnod y cyfrifon. Dylai hyn nodi gwybodaeth am effaith bosibl y risgiau a sut y mae'r rheini'n cael eu lliniaru. Yn gyson ag argymhelliad y Pwyllgor a'n rhagflaenodd, nid ydym yn galw am gynnwys holl gofrestr risg Llywodraeth Cymru yn ei chyfrifon. ........ Tudalen 52

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r wybodaeth y mae'n ei chynnwys yn y cyfrifon am ei Fframwaith Perfformiad, oherwydd heb dargedau ar gyfer mesurau penodol, a sylwadau arnynt, nid yw'n bosibl deall sut y mae Llywodraeth Cymru yn perfformio. ........ Tudalen 57

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r ffordd y mae'n adrodd colledion i'r Senedd a rhoi esboniad o'r hyn y mae'n ei ystyried yn golled "ddifrifol", yn unol â pharagraff A4.9.6 o Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. ........ Tudalen 63

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad i'r Pwyllgor ar ôl cwblhau ei hadolygiad amhariadau er mwyn canfod gwerth cadwedig data a gwaith paratoi arall ar gyfer y cynlluniau ffyrdd. ........ Tudalen 63

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer diweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, ynghyd â syniad o ran pryd y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi. ........ Tudalen 63

**Argymhelliad 21.** Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am y taliadau ex-gratia a wnaed i Hardshell UK Limited a Surviva Limited, yn ychwanegol at yr hyn a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn ei lythyr ar 6 Ebrill 2023. Dylai hyn nodi gwybodaeth am y trefniadau llywodraethu o ran y taliadau hyn, gan gynnwys y broses a fabwysiadwyd ar gyfer ystyried y ceisiadau a wnaed a phwy a wnaeth gymeradwyo'r taliadau. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ddarparu gwybodaeth am unrhyw waith sicrwydd arall a wnaed a'r wers a ddysgodd o'r broses hon. ........ Tudalen 64

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am nifer y cwmnïau y gwnaeth daliadau ex-gratia iddynt ar gyfer cyfarpar diogelu personol COVID-19 o gyllidebau heblaw'r un ar gyfer Prif Grŵp Gwariant yr Economi, yn ogystal â'u gwerth cyfanredol. Dylid darparu hyn fesul blwyddyn ariannol. ........ Tudalen 64

**Argymhelliad 23.** Rydym yn argymell y dylai'r gwaith o weithredu cynllun gweithlu newydd Llywodraeth Cymru fynd rhagddo'n gyflym, gan ganolbwyntio ar y meysydd a awgrymwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Dylid rhannu cynnydd Llywodraeth Cymru yn y maes hwn â'r Pwyllgor bob chwe mis nes bod

y cynllun wedi'i gwblhau. Dylid rhannu'r cynllun terfynol ar gyfer y gweithlu â'r Pwyllgor pan fydd yn barod. ........ Tudalen 83

**Argymhelliad 24.** Mae’r Pwyllgor yn gofyn am ddiweddariadau bob chwe mis ar weithrediad y Fframwaith Dirprwyo ac Atebolrwydd, o ystyried ein pryderon ynghylch cyflymder y broses weithredu. Byddem hefyd yn croesawu cadarnhad bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal adolygia ffurfiol o'i heffaith, ddiwedd 2023-24. Os felly, dylid rhannu copi o'r adolygiad hwn â'r Pwyllgor. ........ Tudalen 83

**Argymhelliad 25.** Tudalen Dylai Llywodraeth Cymru roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am weithrediad y system gwybodaeth reoli Adnoddau Dynol newydd. Os oes rhagor o oedi o ran gweithredu, dylid hysbysu'r Pwyllgor o hyn a rhoi rhesymau iddo dros yr oedi. ........ Tudalen 83

# 1. Cyflwyniad

**1.** Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Chyfrifon cyfunol (y "Cyfrifon"), sy'n rhoi amlinelliad o'i chyllid a'i rhwymedigaethau statudol.

**2.** Cyfrifon 2021-22 oedd yr ail set i'w chymeradwyo a'i llofnodi gan Dr Andrew Goodall, yr Ysgrifennydd Parhaol presennol, a ddechreuodd yn ei swydd ar 1 Tachwedd 2021. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru gwblhau ei Chyfrifon ar gyfer 2020-21 tan fis Awst 2022 a chwblhaodd ei Chyfrifon ar gyfer 2021-22 tua phedwar mis yn ddiweddarach, ym mis Rhagfyr 2022. Roedd rhagflaenydd Dr Goodall yn ei swydd am saith mis cyntaf blwyddyn ariannol 2021-22.

**3.** Gosodwyd Cyfrifon 2021-22 gerbron y Senedd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ("ACC") ar 13 Rhagfyr 2022.

**4.** At hynny, trafododd y Pwyllgor adroddiad ACC ar gynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru[1], a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022, fel rhan o'i waith craffu ar Gyfrifon 2021-22.

[1] Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru

# 2. Barn Archwilydd Cyffredinol Cymru

**5.** Fodd bynnag, am y drydedd flwyddyn yn olynol, rhoddodd yr Archwilydd ei farn 'wir a theg' a’i farn rheoleidd-dra am Gyfrifon Llywodraeth Cymru yn amodol. Rhoddodd ei farn am Gyfrifon 2021-22 yn amodol am y rhesymau a ganlyn:

- Taliad i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol – Ym mis Hydref 2021, gwnaeth Llywodraeth Cymru daliad i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol ar derfynu ei chyflogaeth. Roedd y taliad, sef £80,519 (ac eithrio swm ar gyfer cyflog y mis olaf) yn cynnwys taliad allgontractiol (£39,123), sef taliad ar gyfer gwyliau blynyddol nas cymerwyd (£9,553) a thaliad diswyddo arbennig (£31,843). Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth ACC fod £30,289 o'r taliad allgontractiol yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2020-21 a'i fod wedi'i gynnwys yng Nghyfrifon 2020-21. Dywedodd ACC nad oedd wedi gallu cael tystiolaeth archwilio ddigonol, briodol am drefniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol o fis Ebrill 2018. O ganlyniad, nid oedd wedi gallu penderfynu a oedd y gwariant yng Nghyfrifon 2020-21 yn gywir yn ei hanfod a rhoddodd ei farn ‘wir a theg’ a rheoleidd-dra am y Cyfrifon hynny’n amodol. Roedd yr elfennau eraill o’r taliad o fewn cwmpas ei archwiliad o Gyfrifon 2021-22 Llywodraeth Cymru ac, o ganlyniad, rhoddodd ei farn ‘wir a theg’ a rheoleidd-dra am y Cyfrifon hynny’n amodol hefyd.

- Treth Pensiwn Uwch-glinigwyr – hepgorwyd gwariant yn ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn clinigwyr o Gyfrifon 2020-21 ond cynhwyswyd amcangyfrif o'r costau cysylltiedig yng Nghyfrifon 2021-22, gan adlewyrchu camau tebyg a gymerwyd yn Lloegr. Mae'r trefniad yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn adfer pensiynau ar ôl ymddeol, lle roedd uwch-glinigwyr wedi dewis Cynllun Pensiwn y GIG i dalu eu rhwymedigaethau treth ac, o ganlyniad, bydd eu pensiynau wedi cael eu lleihau gan y rhwymedigaethau hynny.

  Daeth ACC i'r casgliad bod y trefniad yn fath o gynllunio trethi a’i fod, o ganlyniad, yn groes i'r canllawiau a nodwyd yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru. Felly, rhoddodd ei farn rheoleidd-dra ar gyfer 2021-22 yn amodol

ac, yn ei Adroddiad ar Gyfrifon 2021-22, nododd ACC fod y trefniad yn "newydd ac yn ddadleuol a gall[ai] osod cynsail".

**6.** Trafododd y Pwyllgor y taliad i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol yn ystod ei waith craffu ar Gyfrifon 2020-21, gyda chasgliadau wedi'u crynhoi yn adroddiad y Pwyllgor ar y Cyfrifon hynny. Mae'r adroddiad hwn ond yn ystyried y camau a gymerodd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â thâl uwch-swyddog yn dilyn y canfyddiadau am y taliad.

**7.** Trafododd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd y Cyfarwyddyd Gweinidogol ar dâl uwch-glinigwyr ym mis Chwefror 2020.

# 3. Llunio'r Cyfrifon

## Cyhoeddi'r amserlen

**8.** Fel arfer, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei hamserlen flynyddol ar gyfer llunio a chyhoeddi'r Cyfrifon, arfer a ddechreuodd yn dilyn argymhelliad a wnaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn dilyn ei waith craffu ar Gyfrifon 2017-18. Fodd bynnag, ni chyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr amserlen ar gyfer Cyfrifon 2021-22, ond gwnaeth ei rhannu â'r Pwyllgor yn anffurfiol.

**9.** Pan ofynnwyd iddo fyfyrio ar y prif heriau wrth gwblhau Cyfrifon 2021-22, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"… the accounts just get much more complex every year, and I think there is a unique configuration of the accounts that are overseen by the Welsh Government perhaps in contrast to UK Government departments. But equally, we are continually including a range of other organisations who are overseen in Wales, and there are changes of standards also happening".*[2]

**10.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y Cyfrifon wedi'u cyflwyno yn unol â'r amserlen statudol[3]. Pan ofynnwyd iddo am y methiant i gyhoeddi'r amserlen, aeth ymlaen i ddatgan y canlynol:

> *"I think, for last year, the timetables were genuinely altering as we were accommodating things… we were still dealing with some of the delays caused by the previous year's annual accounts".*[4]

**11.** Ar adeg gwaith craffu'r Pwyllgor, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r amserlen ar gyfer Cyfrifon 2022-23 eto. Ymrwymodd yr Ysgrifennydd

[2] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 10
[3] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 9
[4] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 18

Parhaol i wneud hynny, gan ddatgan ei bod yn hollol briodol y dylai hynny fod ar gael i'r cyhoedd[5].

**12.** Pan ofynnwyd iddo am yr amserlen debygol, dywedodd y Cyfarwyddwr Cyllid y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"... we're looking to deliver the draft consolidated account for audit by the end of August. The final audit is going to start then on 1 September. We will be delivering the summary of resource outturn, which is probably the most complex element, by the end of September, and we'll be signing off accounts at the end of November. So, we'll actually be aiming to sign the accounts off in the same timescales as the statutory deadline actually requires us to produce the draft for audit, so we are well in advance of that deadline".*[6]

**13.** Cyn Cyfrifon 2019-20 a dechrau pandemig COVID-19, roedd yn arferol i'r Ysgrifennydd Parhaol gymeradwyo a llofnodi'r cyfrifon ym mis Awst neu fis Medi, gydag ACC yn eu gosod gerbron y Senedd yn fuan wedyn.

**14.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y bydd dychwelyd i amserlen o'r fath yn dipyn o her[7], er bod Llywodraeth Cymru, a chyrff llywodraeth ganolog eraill, yn parhau i drafod ag Archwilio Cymru am gynlluniau i gyflymu'r broses hon.

**15.** Ar adeg llunio'r adroddiad hwn, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r amserlen ar gyfer Cyfrifon 2022-23.

## Cynnwys

**16.** Mae strwythur a chynnwys Cyfrifon 2021-22 yn debyg i'r rhai a baratowyd ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol, gyda rhai newidiadau, megis cynnwys trosolwg o asedau a rhwymedigaethau Grŵp Llywodraeth Cymru.

---

[5] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 18
[6] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 48
[7] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 63

**17.** Pan ofynnwyd iddo am ei fyfyrdodau ar lefel briodol y wybodaeth i'w chynnwys yn y Cyfrifon, dywedodd Cyfarwyddwr Cyllid Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor am rai o'r dulliau newydd o gyfleu gwybodaeth, gan gynnwys:

> *"… we've introduced case studies over the last few years. We've been presenting more information as infographics, which people say is a more useful mechanism for us to use, rather than just pages and pages of words. We also try to focus on, perhaps, key elements that impact the people of Wales at that particular point— things like the pandemic and, obviously, EU transition".*[8]

**18.** Er bod ar feysydd o'r Cyfrifon angen lefel benodol o wybodaeth, nododd Llywodraeth Cymru ei bod wedi gweithio gydag Archwilio Cymru i wella hygyrchedd y wybodaeth[9].

**19.** Yn ystod ein gwaith craffu ar Gyfrifon 2021-22, gwnaethom drafod materion yn ymwneud ag eitemau penodol o wariant, yn ogystal â rhai balansau a adroddwyd yn y datganiadau ariannol, gan gynnwys y meysydd y rhoddir sylw iddynt ym mharagraffau 20 - 33, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

## Gwariant Grant

**20.** Fel mewn blynyddoedd blaenorol, prif wariant gweithredu craidd Llywodraeth Cymru yn 2021-22 oedd ei gwariant grant: gwariant grant £20.8 biliwn o gyfanswm ei gwariant gweithredu, sef £21.4 biliwn[10].

**21.** Ac eithrio adrodd yn ystod y pandemig, ers 2018-19, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys gwybodaeth am ei phrosesau rheoli grantiau yn Rhan 1 o'i chyfrifon. Cyn 2018-19, roedd Llywodraeth Cymru yn llunio adroddiad blynyddol ar wahân ar reoli grantiau.

**22.** Yn yr adran ar weinyddu cyllid grant yng Nghyfrifon 2021-22, darparodd Llywodraeth Cymru ddadansoddiad o wariant grant yn ôl y ddau gategori o

[8] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 30
[9] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 30
[10] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Datganiadau Ariannol, tudalen 212

grantiau: grantiau heb eu neilltuo (£13.9 biliwn); a grantiau wedi'u neilltuo (£6.9 biliwn). At hynny, cynhwysodd Llywodraeth Cymru dabl a ddarparodd ddosbarthiad o wariant grantiau heb eu neilltuo yn ôl sector[11]. Cyflwynwyd hyn ar lefel uchel ac ni wnaeth gynnwys gwybodaeth am y cynlluniau, y pethau cysylltiedig i'w cyflawni a meini prawf o ran diben y grantiau.

**23.** Ar hyn, datganodd y Cyfarwyddwr Cyllid y canlynol:

> *"… on the hypothecated grant funding, essentially, which is about £6 billion, within part 1 of the accounts we do produce a report around how that money is distributed between different sectors, and then that element of the accounts also goes into how we manage the process and the grants team that we have centrally looking at those policies. Obviously, that has developed over time. If the committee has views about perhaps what more we can share on the way that we manage grants, then we're more than happy to look at that for part 1 of the accounts".*[12]

**24.** Dywedodd Llywodraeth Cymru fod ei gwariant grantiau heb eu neilltuo'n cynnwys y taliadau i gyrff iechyd a llywodraeth leol[13] er nad yw'n darparu dadansoddiad o hyn na rhagor o wybodaeth yn yr adran ar weinyddu cyllid grant. Fodd bynnag, mae'n sôn am y trefniadau atebolrwydd lleol cysylltiedig yn yr Adroddiad Atebolrwydd, yn y Cyfrifon[14].

**25.** Ar wahân yn y Cyfrifon, cynhwysodd Llywodraeth Cymru ffeithlun i nodi ei 10 prif faes gwariant cyllideb refeniw[15]. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y mae hyn yn cyd-fynd â'r ffigurau ar gyfer gwariant grant neu'r datganiadau ariannol yn Rhan 3 o'r Cyfrifon.

---

[11] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Blynyddol, tudalen 89
[12] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 227
[13] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Datganiadau Ariannol, tudalen 89
[14] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Datganiadau Ariannol, tudalen 157
[15] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Datganiadau Ariannol, tudalen 83

## Asedau

**26.** Gwerth cyfanswm asedau net craidd Llywodraeth Cymru, at ddibenion cyfrifyddu, oedd £25.0 biliwn ar 31 Mawrth 2022[16], fel y dangosir yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol. Mae hyn yn cynnwys "Asedau ariannol", gwerth £8.2 biliwn ar 31 Mawrth 2022. Mae'r rhain yn cynnwys ei llyfr benthyciadau i fyfyrwyr (gwerth £5.5 biliwn ar 31 Mawrth 2022), yn ogystal ag "Asedau Ariannol Eraill" (gwerth £2.5 biliwn ar 31 Mawrth 2022)[17].

**27.** Roedd 'Asedau Ariannol Eraill' yn cynnwys offerynnau ariannol (gan gynnwys benthyciadau) i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru a chyllid a benthyciadau ad-daladwy i fusnesau i gefnogi datblygu economaidd. Roedd y ffigur hefyd yn cynnwys buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn ei his-gwmnïau, megis Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig[18]. Er y darperir rhai sylwadau am yr hyn y mae 'Asedau Ariannol Eraill' yn ei gynnwys, nid yw'r Cyfrifon yn darparu dadansoddiad o'r gwerth ar ddiwedd y flwyddyn.

**28.** Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y rheswm dros hyn, nododd y Cyfarwyddwr Cyllid fod hyn yn taro cydbwysedd rhwng yr ymarfer symleiddio nifer o flynyddoedd yn ôl a darparu digon o wybodaeth[19]. Nododd y Cyfarwyddwr Cyllid i'r Pwyllgor y byddai unrhyw argymhelliad ynghylch sut y gellid gwella'r Cyfrifon i ddarparu mwy o fanylion yn rhywbeth i'w groesawu.

## Grŵp Llywodraeth Cymru

**29.** Rhoddodd y Cyfrifon wybodaeth am Grŵp Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'i weithgareddau craidd. Mae sefyllfa'r Grŵp yn adlewyrchu trafodiadau a balansau Llywodraeth Cymru, sefydliadau'r GIG (gan gynnwys Iechyd a Gofal Digidol Cymru o 1 Ebrill 2021) ac is-gwmnïau Llywodraeth Cymru (gan gynnwys Career Choices Dewis Gyrfa Ltd, WGC Holdco Ltd a Chronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (CBCA), Grŵp Banc Datblygu Cymru a Grŵp Trafnidiaeth Cymru).

[16] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Datganiadau Ariannol, tudalen 214
[17] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Datganiadau Ariannol, tudalen 230
[18] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Datganiadau Ariannol, tudalen 234
[19] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 230

**30.** Yng Nghyfrifon 2020-21, nododd Llywodraeth Cymru nad oedd is-gwmnïau Trafnidiaeth Cymru wedi'u cynnwys yn y Cyfrifon Grŵp am "nad oeddent yn bodloni gofynion y ffin gyfrifyddu"[20]. Ychwanegodd y canlynol:

> *"Disgwylir cael dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r ddau endid yn y flwyddyn ariannol 2021-22 a fydd yn pennu ymhellach a ddylai'r endidau hyn gael eu cyfuno yng Ngrŵp Llywodraeth Cymru yn y dyfodol. Mae cost cyllido gwasanaeth Cymru a'r Gororau wedi'i chynnwys yn y cyfrifon hyn fel rhan o wariant Trafnidiaeth Cymru.*[21]

**31.** Mewn pennawd i ddatganiadau ariannol 2021-22, datganodd Llywodraeth Cymru y canlynol:

> *"Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cynnwys Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig, Gwasanaethau Arloesi Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru o 1 Ebrill 2021 fel cyrff sydd newydd eu cyfuno".*[22]

**32.** Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd, ers 7 Chwefror 2021, yr ysgwyddodd Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig gyfrifoldeb am wasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru a'r Gororau, gan olynu Keolis Amey Operations Limited/Gweithrediadau Keolis Amey Cyfyngedig. Fel gweithredwr gwasanaethau rheilffyrdd teithwyr, mae Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig yn rheoli 248 o orsafoedd ac yn gweithredu'r holl brif wasanaethau sy'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ogystal â gwasanaethau sy'n cysylltu Cymru â Chaer, Amwythig, Lerpwl, Manceinion, Crewe, Bidston a Cheltenham.[23]

**33.** Ni wnaethom ddod o hyd i wybodaeth yng Nghyfrifon 2021-22 i esbonio'r effaith ar y datganiadau ariannol o ganlyniad i'r newidiadau i gyfansoddiad Grŵp Llywodraeth Cymru.

---

[20] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, Adroddiad Blynyddol, tudalen 51
[21] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, Adroddiad Blynyddol, tudalen 51
[22] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Datganiadau Ariannol, tudalen 212
[23] Adroddiad Blynyddol 2021-22 Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig

## Cydymffurfio â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM

**34.** Dywedodd y cyn-Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ym mis Hydref 2017, nad oedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gydymffurfio â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM wrth lunio Rhan 1 o'i Chyfrifon, gan ei bod yn llywodraeth ddatganoledig[24]. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r GIG a'i Chyrff Hyd Braich wneud hynny (os ydynt yn llunio cyfrifon yn unol â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol).

**35.** Yn ei adroddiad ar Gyfrifon 2017-18, daeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i'r casgliad bod cyfle i Gymru arwain y ffordd ym maes adroddiadau ariannol ac argymhellodd fod Llywodraeth Cymru yn egluro gofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol roedd yn ceisio cydymffurfio â hwy, yn ogystal â'r gofynion cyfatebol yng Nghymru ar gyfer adroddiadau blynyddol a gaiff eu llunio gan gyrff y sector cyhoeddus[25]. Byddai hyn yn helpu i sicrhau y datgelir gwybodaeth ddigonol a phriodol, gan alluogi gwaith craffu effeithiol. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad[26].

**36.** Fel rhan o'i waith craffu ar Gyfrifon 2019-20, argymhellodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y canlynol:

> *"Er budd tryloywder, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi manylion yn flynyddol ynghylch sut mae penderfyniadau wedi'u gwneud o ran cydymffurfio â'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol …" [Argymhelliad 2]*[27]

**37.** Yn ymateb Llywodraeth Cymru, dywedodd y cyn-Ysgrifennydd Parhaol y canlynol:

> *"Bydd Llywodraeth Cymru yn anelu at roi diweddariad o'r fath i'r Pwyllgor o 2021-22 ymlaen. Fodd bynnag, er bod y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol fel arfer yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr, er*

[24] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 2 Hydref 2017, paragraff 131
[25] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2017-18: Llywodraeth Cymru
[26] Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 30 Ebrill 2019
[27] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Llywodraeth Cymru

> *mwyn cefnogi'r gwaith o baratoi'r cyfrifon o'r mis Ebrill canlynol ymlaen, nid yw'n anghyffredin i ychwanegiadau neu ganllawiau ychwanegol gan Drysorlys EM gael eu cyhoeddi drwy gyfnod paratoi'r cyfrifon – yn wir ar gyfer cylch 2020-21 cyhoeddwyd canllawiau wedi'u diweddaru ym mis Mai 2021. Felly, dim ond adlewyrchu'r sefyllfa ar y dyddiad hwnnw y bydd unrhyw ddiweddariad a roddir i'r Pwyllgor".*[28]

**38.** Ni roddwyd y wybodaeth hon i'r Pwyllgor hwn cyn cyhoeddi Cyfrifon 2021-22.

## Adrodd cynnydd a chyflawni yn erbyn y Rhaglen Lywodraethu

**39.** O ran y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, soniodd swyddogion Llywodraeth Cymru am y Cyfrifon yn flaenorol fel un o'r pedwar adroddiad allweddol sy'n darparu trosolwg cynhwysfawr o weithgarwch yng Nghymru[29]. At hynny, gwnaethant nodi mai mater i Weinidogion Cymru yw adrodd am berfformiad yn erbyn amcanion polisi[30].

**40.** Cododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus bryderon am "anghysondeb y wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus am berfformiad Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn"[31] a nododd nad oedd rhai o'r adroddiadau eraill a nodwyd bryd hynny ar gael pan gafodd y Cyfrifon eu gosod. Fel y cyfryw, argymhellodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fod Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth ar ei gwefan sy'n nodi ei dull cyffredinol o adrodd, yn ogystal â'r cysylltiadau rhwng y pedwar adroddiad blynyddol allweddol a gyhoeddir ganddi.

**41.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, gan gadarnhau y byddai'r wybodaeth yn cael ei chyhoeddi ar ei gwefan, ochr yn ochr â Chyfrifon 2019-20[32].

**42.** Yn ei Chyfrifon o 2019-20, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys tabl i nodi "prif adroddiadau" ganddi er bod hynny heb lincs iddynt ar ei gwefan. Fodd

[28] Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 15 Hydref 2021
[29] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 7 Hydref 2019, paragraff 45
[30] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 7 Hydref 2019, paragraff 45
[31] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru
[32] Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 17 Gorffennaf 2020

bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnwys y wybodaeth hon ar ei gwefan ar gyfer ei chyfrifon cyfunol.

## Adroddiad ar Alldro

**43.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi'r Adroddiad ar Alldro o'r blaen fel un o'r pedwar adroddiad allweddol. Mae'r Adroddiad ar Alldro yn cynnwys gwybodaeth fanwl am yr alldro yn erbyn y gyllideb, ynghyd ag esboniadau ar gyfer yr amrywiannau. Dyma, hefyd, yr unig le y mae Llywodraeth Cymru yn adrodd ar ei balans ar Gronfa Wrth Gefn Cymru.

**44.** Fel arfer, nid yw'r Adroddiad ar Alldro wedi bod ar gael mewn pryd ar gyfer gwaith craffu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (bellach y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus) ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru. Fel y cyfryw, gwnaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus argymhelliad, yn dilyn ei waith craffu ar Gyfrifon 2019-20, yn galw i'r pedwar adroddiad a nodwyd gan Lywodraeth Cymru gael eu cyhoeddi (fel y nodwyd yn y paragraff blaenorol) ar yr un pryd[33]. Yn ei hymateb, datganodd Llywodraeth Cymru y canlynol:

> *"Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio cyhoeddi'r adroddiad ar alldro ar gyfer y flwyddyn flaenorol o fewn 3 wythnos i gyhoeddi'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r adroddiad ar alldro yn dibynnu ar gwblhau'r archwiliad statudol blynyddol".*[34]

**45.** Yn seiliedig ar y datganiad uchod, byddem wedi disgwyl i'r Adroddiad ar Alldro gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Ionawr 2023 fan bellaf, gan ystyried gwyliau'r Nadolig. Gwnaethom nodi yn ein hadroddiad ar Gyfrifon 2020-21 bod yr oedi cyn ei gyhoeddi yn siomedig ac y gellid ei ystyried yn gam yn ôl o ran prydlondeb adrodd[35].

**46.** Pan ofynnwyd iddo am esboniad am yr oedi yn ystod ein gwaith craffu ar Gyfrifon 2021-22, datganodd yr Ysgrifennydd Parhaol y canlynol:

---

[33] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Llywodraeth Cymru
[34] Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 15 Hydref 2021
[35] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2020-21: Llywodraeth Cymru

> *"So, there was a knock-on effect of just our timings around the submission of the accounts, and a bit of a roll-over of it, but the real issue that's got in the way of staff who would normally be associated with doing the outturn report was that we've just, from a Government perspective, had to support Ministers with a very significant budget round… and we simply had to prioritise that work at that time".*[36]

**47.** Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar Alldro ar gyfer 2021-22 ar 27 Chwefror 2023 ac felly roedd yn rhy hwyr i'r Pwyllgor graffu arno yn ogystal â Chyfrifon 2021-22.

## Gweithredu argymhellion y Pwyllgor

**48.** Cafodd yr oedi cyn gosod Cyfrifon 2020-21 effaith sylweddol ar amseriad gwaith craffu'r Pwyllgor arnynt ac, fel y cyfryw, cyhoeddwyd Cyfrifon 2021-22 cyn i'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar ei waith craffu ar Gyfrifon 2020-21. O ganlyniad, nid adlewyrchwyd yr argymhellion a wnaeth y Pwyllgor yn yr adroddiad hwnnw yn y set hon o Gyfrifon.

**49.** Mewn perthynas â gweithredu argymhellion y Pwyllgor gan Lywodraeth Cymru, nododd y Cyfarwyddwr Cyllid y canlynol am y set nesaf o Gyfrifon:

> *"… give us (the Welsh Government) an opportunity to look at the Argymhelliads of committee, perhaps some of the previous Argymhelliads that we might not have picked up, and actually try and build that into the 2022-23 accounts".*[37]

**50.** Pan ofynnwyd iddo am ddull Llywodraeth Cymru o olrhain argymhellion a wnaeth y Pwyllgor, cydnabu'r Ysgrifennydd Parhaol fod y ddisgyblaeth ynghylch hyn wedi llithro ychydig yn ystod y pandemig[38]. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

[36] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 264
[37] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 56
[38] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 59

> *"... there are mechanisms in place; we do track them, we do look at those that are outstanding, and of course, as Government terms come to an end, there are some opportunities for some of those areas to be tidied up and understood. But I think some of the long-standing historical issues, certainly Argymhelliads over years, do still apply to good accounts management as well. But we do have corporate and group-based processes in place".*[39]

## Ein barn ni

**51.** Rydym yn cydnabod y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â chwblhau Cyfrifon 2021-22, yn enwedig o ystyried yr oedi ynghylch cwblhau Cyfrifon 2020-21. Rydym yn cydnabod gwaith caled swyddogion ac archwilwyr wrth gyflawni hyn.

**52.** Rydym yn croesawu ymrwymiad yr Ysgrifennydd Parhaol i gyhoeddi'n flynyddol yr amserlen ar gyfer llunio a chyhoeddi'r Cyfrifon. Mae'n hanfodol ar gyfer tryloywder mewn adroddiadau ariannol bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd a hynny'n brydlon.

**53.** Fodd bynnag, nodwn nad oedd yr amserlen ar gyfer Cyfrifon 2022-23 wedi'i chyhoeddi pan wnaethom graffu ar Gyfrifon 2021-22. Roedd hyn yn wir o hyd ar adeg llunio'r adroddiad hwn, ychydig o fisoedd ar ôl dechrau blwyddyn ariannol 2023-24. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi'r amserlen cyn gynted â phosibl.

**54.** Nodwn dystiolaeth yr Ysgrifennydd Parhaol y bydd yn dipyn o her i Lywodraeth Cymru ddychwelyd i osod ei chyfrifon gerbron y Senedd ym mis Awst neu fis Medi bob blwyddyn. Rydym yn cydnabod yr heriau presennol a'r heriau sydd o'n blaenau, megis gweithredu safonau cyfrifyddu newydd a dod â chyrff ychwanegol o fewn ei ffin gyfrifyddu.

**55.** Fodd bynnag, fel yr adroddodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, mae gan Lywodraeth Cymru gyfle i arwain y ffordd mewn adroddiadau ariannol ac mae'n bwysig ei bod yn gosod safon uchel fel enghraifft i weddill y sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae'n galonogol bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ag ACC ar

---

[39] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 59

gynllun tair blynedd, gydag uchelgais gyffredin i gwblhau ei chyfrifon ym mis Medi.

**56.** Gan gydnabod yr heriau a'r adnoddau a fuddsoddir wrth eu llunio, ein barn ni yw y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i wella hygyrchedd ei Chyfrifon a'u cyflwyno'n well ar ei gwefan. Rydym yn nodi bod rhai cyrff sector cyhoeddus eraill yng Nghymru wedi newid sut y maent yn gwneud hynny, gan gynnwys crynodebau ac uchafbwyntiau ar-lein, yn ogystal â darparu linc i'r ddogfen lawn.

**57.** Nodwn nad yw'r Cyfrifon yn cynnwys gwybodaeth ynghylch lle y gellir dod o hyd i'r "prif adroddiadau" ar wefan Llywodraeth Cymru. Dylid darparu lincs penodol lle y cyfeirir at ffynonellau eraill gan ei bod, ym marn y Pwyllgor, yn anodd dod o hyd i wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru. Ynghyd â darparu lincs penodol yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad i sicrhau ei bod yn haws i bobl lywio ei gwefan a dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen.

**58.** O ran eu cynnwys, credwn fod cryn fuddiant yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi gwario arian cyhoeddus a'r canlyniadau y mae'r gwariant hwn wedi'u cyflawni i bobl Cymru. Gwerir cyfran sylweddol o wariant Llywodraeth Cymru ar grantiau ond, ym marn y Pwyllgor, nid adlewyrchir hyn yng nghydbwysedd y wybodaeth yn y Cyfrifon.

**59.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu cynnwys ei chyfrifon i sicrhau ei fod yn adrodd yn iawn y stori am ei gwariant. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau cysondeb rhwng y ffigurau gwariant a adroddir ar draws Rhan 1 hyd at Ran 3 o'i Chyfrifon.

**60.** Credwn hefyd y dylai'r Cyfrifon gynnwys dadansoddiad o 'Asedau Ariannol Eraill' Llywodraeth Cymru ar gyfer ei sefyllfa graidd, a oedd yn werth £2.5 biliwn ar 31 Mawrth 2022. Dylai hyn alluogi'r darllenydd i weld gwerth yr ystod o asedau gwahanol sydd wedi'u cynnwys yn y categori hwn, megis y benthyciadau a chyllid ad-daladwy i fusnesau i gefnogi datblygu economaidd i fuddsoddiad Llywodraeth Cymru yn ei his-gwmnïau. Er bod rhywfaint o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y naratif i'r nodyn yn Rhan 3 o'r Cyfrifon, yn ein barn ni, nid yw hyn yn rhoi digon o fanylion ar gyfer gwaith craffu.

**61.** Gwnaethom nodi'r newidiadau i Grŵp Llywodraeth Cymru yn 2021-22, gan gynnwys cydgrynhoi Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru Cyfyngedig am y tro cyntaf. Mae'r rhain yn cynrychioli newidiadau sylweddol i rai o drafodiadau a balansau'r Grŵp ac, fel y cyfryw, dylai Llywodraeth Cymru fod wedi cynnwys gwybodaeth yn ei Chyfrifon am eu heffaith. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn gwneud hynny yn y dyfodol lle y mae newidiadau i'w Grŵp.

**62.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrthym fod gan Lywodraeth Cymru fecanwaith i olrhain argymhellion. Rydym yn cydnabod nad oedd amseriad ein hadroddiad ar Gyfrifon 2020-21 yn galluogi i'n hargymhellion, pe baent wedi'u derbyn, gael eu hadlewyrchu yn y Cyfrifon ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Fodd bynnag, tynnodd ein gwaith craffu sylw at y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru eto wedi gweithredu rhai argymhellion a wnaeth y Pwyllgor a'n rhagflaenodd, er ei bod wedi'u derbyn. Cafodd rhai eu gwneud yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyfrifon 2017-18.

**63.** Argymhellodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd fod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi, ar ei gwefan ar gyfer ei chyfrifon, wybodaeth am y prif adroddiadau sydd, gyda'i gilydd, yn darparu trosolwg cynhwysfawr o'i gweithgarwch a'r hyn y mae wedi'i gyflawni. Er ein bod yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am yr adroddiadau hyn yn ei chyfrifon, nid yw wedi esbonio ei dull gweithredu ar ei gwefan ochr yn ochr â'r cyfrifon.

**64.** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi eto i'r Pwyllgor gofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y mae'n ceisio cydymffurfio â hwy wrth lunio ei chyfrifon, yn ogystal â'i gofynion a'i chanllawiau ar gyfer cyrff sector cyhoeddus eraill yn ei hadroddiadau blynyddol cyfatebol. Ar ôl derbyn argymhellion cysylltiedig y Pwyllgor a'n rhagflaenodd, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl ar gyfer Cyfrifon 2023-24, gan hysbysu'r Pwyllgor yn flynyddol am newidiadau i'w phenderfyniadau neu yn sgil gofynion newydd y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol.

**65.** Nododd Llywodraeth Cymru fod yr Adroddiad ar Alldro yn un o'i phrif adroddiadau sy'n darparu trosolwg cynhwysfawr o weithgarwch yng Nghymru. Rydym yn rhannu barn y Pwyllgor a'n rhagflaenodd y dylid cyhoeddi hyn mewn pryd ar gyfer ein gwaith craffu ar y cyfrifon. Fel y cyfryw, rydym yn ailadrodd ei argymhelliad.

**66.** Clywsom fod gan Lywodraeth Cymru gyfle, wrth lunio Cyfrifon 2022-23, i weithredu argymhellion nad yw wedi'u gweithredu eto. Rydym yn croesawu hyn ac yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, ar yr adeg y mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn cymeradwyo ac yn llofnodi Cyfrifon 2022-23, os nad cyn hynny.

**Argymhelliad 1.** Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu cynnwys ei chyfrifon i sicrhau ei fod yn adrodd yn iawn y stori am ei gwariant a'r hyn y mae wedi'i gyflawni. Dylai Llywodraeth Cymru, yn benodol, ystyried y wybodaeth y mae'n ei chynnwys am ei chyllid grant, sy'n rhoi cyfrif am gyfran sylweddol o'i gwariant ond nid adlewyrchir hyn yng nghydbwysedd y wybodaeth yn y cyfrifon.

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gall gyflwyno ei chyfrifon mewn modd mwy hygyrch. Gellid cyflawni hyn drwy ddogfennau cryno neu offer rhyngweithiol ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth yn gliriach, yn hytrach na chynnwys y copi PDF yn unig o'r cyfrif llawn, fel y mae'n gwneud ar hyn o bryd.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu lincs i'r cyhoeddiadau a'r adroddiadau y mae'n cyfeirio atynt yn ei chyfrifon, gan fod y Pwyllgor o'r farn ei bod yn anodd dod o hyd i ddogfennau allweddol ar wefan Llywodraeth Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd adolygu ei gwefan i sicrhau ei bod yn haws i bobl ei llywio a dod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd argymhelliad y Pwyllgor a'i rhagflaenodd ar gyhoeddi'r Adroddiad ar Alldro. Er ein bod yn cydnabod y rhwystrau ymarferol i gyhoeddi pob adroddiad ariannol ar yr un pryd, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ceisio cyhoeddi'r dogfennau hyn naill ai ar yr un pryd neu mor agos â phosibl at ei gilydd. Yn benodol, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei Hadroddiad ar Alldro cyn gynted â phosibl ar ôl gosod ei chyfrifon bob blwyddyn ac yn ddigon prydlon i alluogi'r Pwyllgor i ystyried ei gynnwys cyn ei sesiynau craffu ar y cyfrifon.

**Argymhelliad 5.** Er mwyn galluogi'r darllenydd i weld gwerth yr ystod o asedau gwahanol sydd wedi'u cynnwys yn y categori asedau ac i hwyluso gwaith craffu, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys dadansoddiad o'r 'Asedau Ariannol Eraill' ar gyfer ei sefyllfa graidd yn ei chyfrifon.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys gwybodaeth, yn ei chyfrifon, am effaith newidiadau i gyfansoddiad ei Grŵp ar ei drafodiadau ariannol a'i falansau a adroddwyd.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu i'r Pwyllgor, ar yr adeg y mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn cymeradwyo ac yn llofnodi Cyfrifon 2022-23 os nad cyn hynny, ddiweddariad am yr argymhellion a wnaed ganddo a'r Pwyllgor a'i rhagflaenodd yn dilyn gwaith craffu ar y cyfrifon nad yw wedi'u gweithredu eto. Dylai'r diweddariad hwn gynnwys esboniad pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu eto ar argymhelliad y Pwyllgor, yn ogystal â'r amserlen arfaethedig ar gyfer ei weithredu.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd argymhelliad y Pwyllgor a'i rhagflaenodd ar ofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol. Dylai Llywodraeth Cymru hysbysu'r Pwyllgor o ofynion y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y mae'n ceisio cydymffurfio â hwy wrth lunio ei chyfrifon. Dylai hefyd hysbysu'r Pwyllgor am newidiadau i'w phenderfyniadau, neu yn sgil gofynion newydd y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol, pan gyhoeddir y cyfrifon. Dylid darparu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl cyn Cyfrifon 2023-24.

# 4. Tâl Cydnabyddiaeth Uwch-swyddogion

## Y cefndir

**67.** Rhoddodd ACC ei farn "wir a theg" a rheoleidd-dra am Gyfrifon 2020-21 yn amodol. Roedd y rhesymau'n cynnwys nad oedd wedi gallu cael tystiolaeth archwilio ddigonol a phriodol i benderfynu a oedd gwariant yng nghyfrifon 2020-21 sy'n ymwneud â thaliad i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol wedi'i awdurdodi'n berthnasol gywir a'i awdurdodi'n briodol. Ym mharagraff pump, rydym yn nodi gwybodaeth am y rhesymau eraill pam y rhoddodd ACC ei farn archwilio am gyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 yn amodol.

**68.** Rhoddodd ACC ei farn "wir a theg" a rheoleidd-dra am Gyfrifon 2021-22 yn amodol, a oedd yn cynnwys gwariant sy'n ymwneud â thair elfen o'r taliad i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol ym mis Hydref 2021, sef £80,519.

**69.** Mae rhagor o wybodaeth am y taliad i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol i'w gweld yn adroddiad y Pwyllgor ar Gyfrifon 2020-21.

**70.** Yn Adroddiad er Budd y Cyhoedd ACC, 'Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth' (Medi 2022), nodwyd cyfres o gamau y byddai Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn sgil ei ganfyddiadau. Roedd y rhain yn cynnwys:

- dogfennaeth well ar gyfer cytundebau.
- adolygu cylch gorchwyl ei Phwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol.
- cynhyrchu set wedi'i dogfennu o brosesau ar gyfer ymdrin â materion Adnoddau Dynol arwyddocaol sy'n ymwneud â'r Ysgrifennydd Parhaol neu staff eraill mewn swyddi uchel iawn.
- gweithio gyda Swyddfa Cabinet y DU i ddatblygu canllawiau penodol ar gyfer rheolaeth llinell ar ysgrifenyddion parhaol yn y cyd-destun datganoledig.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

**71.** Yn y Datganiad Llywodraethiant yng Nghyfrifon 2021-22, nododd yr Ysgrifennydd Parhaol y canlynol:

> *"Nid yw telerau ac amodau'r Uwch Wasanaeth Sifil (SCS), gan gynnwys y cylch cyflog, yn cael eu dirprwyo i swyddog arweiniol Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Cabinet ar gyfer recriwtio Ysgrifenyddion Parhaol a llawer o agweddau sy'n gysylltiedig â recriwtio Cyfarwyddwyr Cyffredinol. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod ei bod yn bwysig bod penderfyniadau sy'n ymwneud â chyflogau SCS yn dryloyw ac yn cael eu cefnogi gan lywodraethiant cryf."*[40]

**72.** Nododd y gwelliannau arfaethedig a ganlyn i'r fframwaith dirprwyaethau ar gyfer penderfyniadau sy'n ymwneud â'r SCS:

- Diweddaru canllawiau recriwtio ac adnoddau'r SCS gyda mapiau proses, dirprwyaethau a llwybrau cymeradwyo clir mewn perthynas â chyflogau'r SCS, gan gynnwys meysydd megis ymddeoliad rhannol a rhyngweithio â pholisïau Llywodraeth Cymru pan all fod gorgyffwrdd rhwng cyfrifoldebau Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru.

- Adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth i sicrhau mwy o eglurder ynghylch y rôl a'r cylch gwaith, ac adolygu'r templed a'r broses Achos Busnes i wella eglurder cyngor Adnoddau Dynol a ddarperir i'r Pwyllgor.

- Gweithredu fframwaith Telerau ac Amodau'r Ysgrifennydd Parhaol, parhau i weithio gyda Swyddfa'r Cabinet i ddiffinio'n well rolau a chyfrifoldebau Swyddfa'r Cabinet a Llywodraeth Cymru a datblygu nodiadau ffeil safonol i sicrhau bod trefniadau sy'n cynnwys Swyddfa'r Cabinet yn cofnodi'r holl gymeradwyaethau perthnasol a pholisïau a roddir ar waith.

**73.** Pan ofynnwyd iddo am ddiweddariad am weithredu'r camau hyn, dywedodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Pherfformiad Adnoddau

[40] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 165

Dynol wrth y Pwyllgor fod y fframwaith Telerau ac Amodau newydd wedi'i gymeradwyo ym mis Medi 2022, ar y cyd â Swyddfa'r Cabinet, a'i fod wedi'i weithredu ers hynny[41]. Aeth ymlaen i esbonio'r canlynol:

> *"We've looked at all of our SCS policies and also the policies that perhaps weren't clear whether they related to SCS members or not, and we've got an action plan in place to work through those. As you would expect, we focused on the key areas. So, on partial retirement, we've implemented a specific policy for our SCS, which was signed off in December via remuneration committee. It builds in the process of a business case to remuneration committee. So, there is a lot more governance and transparency around the arrangements, which I think was one of the key things that I'd certainly picked up from the discussion".*[42]

## Adroddiad ACC 2021-22

**74.** Yn ei Dystysgrif ar Gyfrifon 2021-22, nododd ACC y datgeliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn ei Ddatganiad Llywodraethu ynghylch gwendidau yn y fframwaith llywodraethu sy'n ymwneud â chyflogau uwch-swyddogion, y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â hwy yn 2022-23[43].

**75.** Yn yr Adroddiad ar Gyfrifon 2021-22, dywedodd ACC ei fod wedi nodi:

> *"… meysydd i'w gwella ynghylch y fframwaith trosfwaol a phrosesau a pholisïau cynhaliol ar gyfer tâl Uwch Wasanaeth Sifil er mwyn gwella llywodraethu a thryloywder".*[44]

**76.** Er ei fod yn nodi nad yw holl delerau ac amodau'r SCS (gan gynnwys cyflog) yn cael eu dirprwyo i Lywodraeth Cymru, dywedodd ACC:

[41] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 81
[42] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 81
[43] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 203
[44] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 210

> *"… mae'n bwysig, pan fo penderfyniadau sy'n gysylltiedig â chyflogau Uwch Wasanaeth Sifil yn cael eu gwneud, eu bod yn dryloyw ac yn cael eu cefnogi gan lywodraethu cryf, gan gynnwys yr angen am fframwaith dirprwyaethau clir a dogfennol".*[45]

## Adroddiad Staff a Thaliadau Cydnabyddiaeth

### Gwrthod Cydsyniad

**77.** Mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2021-22 yn dweud y canlynol am yr Adroddiad Staff a Thaliadau Cydnabyddiaeth, sydd wedi'i gynnwys yn y Cyfrifon,:

> *"… fundamental to demonstrating transparency and accountability to Parliament and the public and therefore disclosure is expected in all but exceptional cases".*[46]

**78.** Fodd bynnag, yn ei Dystysgrif Archwilio, nododd ACC "na roddodd un uwch-swyddog ei ganiatâd i ddatgelu gwybodaeth a bennwyd gan Drysorlys EF ynghylch cydnabyddiaeth ariannol a thrafodiadau eraill". Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"Derbyniodd Llywodraeth Cymru gais yr uwch-swyddog ac o ganlyniad nid yw'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adroddiad Staff yn cynnwys yr wybodaeth hon".*[47]

**79.** Mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2021-22 yn datgan y canlynol:

> *"If a member does not agree to disclosure, the entity must consider whether to accept it. Under such circumstances the GDPR requires the entity to demonstrate compelling legitimate grounds for the disclosure which override the interests, rights and freedoms of the member or for the establishment, exercise or defence of legal claims. Entities are strongly advised to take legal advice in such a case,*

[45] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 210
[46] Trysorlys EM, The Government Financial Reporting Manual: 2021-22
[47] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 205

> *because a decision not to publish may be challenged under the Freedom of Information Act. This may also apply to other disclosures included in annual reports and accounts".*[48]

**80.** Mewn troednodyn ynghylch datgelu manylion pensiwn ar gyfer uwch-swyddogion, a gynhwysir yn yr Adroddiad Staff a Thaliadau Cydnabyddiaeth ar gyfer 2021-22, datganodd Llywodraeth Cymru bod "datgeliad penodol sy'n ofynnol gan Hysbysiad Pensiwn y Cyflogwr 647 wedi'i hepgor yn unol ag Erthygl 21 o GDPR y DU"[49].

**81.** Pan ofynnwyd iddo am hyn, esboniodd y Cyfarwyddwr Cyllid y broses a ddilynodd Llywodraeth Cymru:

> *"… we looked at the financial reporting manual, and one of the aspects in the financial reporting manual is that we are required to, obviously, inform individuals, and it does cover their right to object under certain circumstances. We then looked at the GDPR rules, and article 21 covers the individual's right to object and how you can take that forward. We obviously spoke to the individual about their concerns. We consulted a data protection officer for the Welsh Government. We spoke to the senior case officer dealing with FOIs. We consulted legal services. At the end of all of that, we actually produced a detailed note, which we shared with audit colleagues, covering the issues that were raised".*[50]

**82.** Gwnaethom nodi na wnaeth Llywodraeth Cymru adrodd am y newidiadau i drefniadau gweithio'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol o 1 Ebrill 2018 i 1 Ebrill 2019 yn ei Chyfrifon ar gyfer 2018-19 a 2019-20, yn ôl eu trefn. O ystyried yr hepgoriad hwn, gwnaethom ofyn pa sicrwydd y gellid ei roi am lywodraethu'r taliadau cydnabyddiaeth a'r trafodiadau eraill a hepgorwyd o'r Adroddiad Staff a Thaliadau Cydnabyddiaeth ar gyfer 2021-22. Gwnaethom ofyn hefyd a fyddai

[48] Trysorlys EM, The Government Financial Reporting Manual: 2021-22
[49] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 180
[50] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 87

gwybodaeth yn parhau i gael ei hepgor yn y Cyfrifon ar gyfer blynyddoedd diweddarach.

**83.** Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol nad oedd hepgoriadau eraill ar gyfer y flwyddyn dan sylw (2021-22) a datganodd y canlynol ynghylch y dyfodol:

> *"… inevitably, it's a case-by-case and an individual aspect. It's going to be quite a rare and exceptional event for those sorts of requests to emerge. So, I think we just need to deal with each one based on the individual circumstances".*[51]

## Ymddeoliad Rhannol

**84.** Roedd y cyflog a dalwyd i Gyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg Llywodraeth Cymru yn amrywio rhwng £75,000 a £80,000 yn 2021-22, o'i gymharu â chyflog rhwng £105,000 a £110,000 ar gyfer 2020-21. Mewn troednodyn yn yr Adroddiad Staff a Thaliadau Cydnabyddiaeth, dywedodd Llywodraeth Cymru y canlynol:

> *"Gwnaeth David Richards gais am ymddeoliad rhannol o 1 Medi 2021 ac fe gymeradwywyd ei gais. O'r dyddiad hwnnw mae ei gyflog a'i oriau gwaith wedi eu gostwng. Ei gyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy yw £105,000 i £110,000".*[52]

**85.** Pan ofynnwyd iddo am drefniadau newydd ar gyfer cymeradwyo ymddeoliad rhannol, yn dilyn newidiadau a wnaed i Adroddiad er Budd y Cyhoedd ACC am y taliad i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol, dywedodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Gweithrediadau a Pherfformiad wrth y Pwyllgor fod y broses wedi newid o ddau gam i chwech[53]. Esboniodd y canlynol:

> *"… it's based on an individual making a formal request in writing to their line manager, and a conversation about the request that's then documented. We've built in a stage where the manager would seek*

[51] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 90
[52] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 178
[53] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 97

> *HR advice so that we can identify any potential issues that we need to be aware of, and then a business case would go to remuneration committee. There would be a discussion about the potential impact of that request on not just the individual, but the whole organisation, and then the outcome of that would be relayed to the manager, the employee would be notified, and then they would fill out the forms, as they would have done previously".* [54]

**86.** Nododd mai nod y camau ychwanegol hyn oedd sicrhau llywodraethiant da a thryloywder[55]. Fodd bynnag, nododd fod nifer y ceisiadau am ymddeoliad rhannol yn fach iawn a'u bod am sicrhau eu bod yn cynnal hyblygrwydd i'r holl staff, ni waeth beth yw eu gradd.

## Datganiad Polisi Tâl

**87.** Yn ei Datganiad Polisi Tâl, mae Llywodraeth Cymru, fel arfer, wedi nodi ei ffordd o ran tâl a'r berthynas rhwng tâl gweithiwr a thaliadau cydnabyddiaeth uwch-reolwyr. Datganwyd y canlynol yng Nghyfrifon 2021-22:

> *"Yn unol ag egwyddorion 'Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru' a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad ar ei pholisi tâl ar ei gwefan".*[56]

**88.** Adeg y sesiwn graffu gyda swyddogion, ar 2 Mawrth 2023, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2022. Roedd ei Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2021 wedi'i gyhoeddi ym mis Hydref 2021.

[54] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 97
[55] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 97
[56] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 169

**89.** Pan ofynnwyd iddo pam nad oedd y Datganiad Polisi Tâl wedi'i gyhoeddi eto, esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y ddogfen wedi'i llunio ond ei bod yn disgwyl ei chyfieithu cyn ei chyhoeddi[57].

**90.** Esboniodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Gweithrediadau a Pherfformiad y byddai Datganiad Polisi Tâl 2022 yn adrodd ar y bwlch cyflog anabledd a'r bwlch cyflog ethnigrwydd am y tro cyntaf[58].

**91.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2022 ar 22 Mawrth 2023, bron blwyddyn ar ôl y cyfnod roedd yn ymwneud ag ef.

## Ein barn ni

**92.** Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru bod angen gwelliannau i lywodraethiant a thryloywder cyflogau'r SCS, yn dilyn canfyddiadau ACC am y taliad i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol ar derfynu ei chyflogaeth a'i waith dilynol.

**93.** Mae'n bwysig bod y gwaith yn y maes hwn yn cael ei wneud a'i gwblhau'n briodol ac yn brydlon. Rydym yn sicr y bydd y newidiadau'n cael eu gweithredu gyda goruchwyliaeth gan y Pwyllgor Tâl Cydnabyddiaeth sy'n cefnogi'r Ysgrifennydd Parhaol fel Prif Swyddog Cyfrifyddu. Fodd bynnag, mae'n faes y byddwn yn ailedrych arno yn ystod ein gwaith craffu ar Gyfrifon 2022-23 Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys trafod ymateb Llywodraeth Cymru i'n hadroddiad ar Gyfrifon 2020-21, gan fod nifer o'n hargymhellion hefyd yn ymwneud â chyflogau'r SCS.

**94.** Clywsom am y newidiadau i'r broses ar gyfer cymeradwyo ceisiadau am ymddeoliad rhannol, yn dilyn Adroddiad er Budd y Cyhoedd ACC am y taliad i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol. Fodd bynnag, ni chawsom y sicrwydd a geisiwyd am y Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg, a ymddeolodd yn rhannol o 1 Medi 2021 dan y trefniadau blaenorol. Byddem yn croesawu gwybodaeth ynghylch pwy a gymeradwyodd y cais hwn a'r sicrwydd nad yw'r materion a nodwyd mewn cysylltiad â newidiadau i drefniadau gweithio'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol o 1

[57] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 99
[58] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 100

Ebrill 2018 (megis cronni absenoldeb) yn gymwys yn yr achos hwn. Byddem hefyd yn croesawu gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer ôl-lenwi'r swydd hon, gan fod y rôl bellach yn cael ei chyflawni'n rhan-amser.

**95.** Rydym yn nodi'r broses a ddilynwyd gan swyddogion ar ôl i'r SCS dynnu cydsyniad yn ôl i wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr Adroddiad Staff a Thaliadau Cydnabyddiaeth ar gyfer 2021-22. Mae hwn yn ddigwyddiad prin ac rydym yn croesawu tystiolaeth yr Ysgrifennydd Parhaol y bydd hepgoriadau o'r fath yn ddigwyddiadau eithriadol. Mae'n bwysig bod gwybodaeth sy'n ymwneud â staff, a delir gan bwrs y wlad, yn cael ei hadrodd yn unol â'r canllawiau i ddangos tryloywder ac atebolrwydd.

**96.** Nid ydym yn glir o dystiolaeth yr Ysgrifennydd Parhaol beth yw'r rhesymau dros yr oedi cyn cyhoeddi'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2022. Rydym yn siomedig nad oedd hynny ar gael ar adeg gwaith craffu'r Pwyllgor ar Gyfrifon 2021-22. Byddwn yn trafod hyn wrth graffu ar Gyfrifon 2022-23. Rydym hefyd yn disgwyl trafod y Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2023, yn ogystal â'r Cyfrifon. Fel y cyfryw, rydym yn argymell bod y Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2023 yn cael ei gyhoeddi erbyn i'r Ysgrifennydd Parhaol gymeradwyo a llofnodi'r Cyfrifon ar gyfer 2022-23, os nad yn gynharach.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth ynghylch pwy a gymeradwyodd gais y Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg am ymddeoliad rhannol a sicrwydd nad yw'r materion a nodwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â threfniadau gweithio'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol o 1 Ebrill 2018 yn gymwys yn yr achos hwn. Rydym yn gofyn am ragor o wybodaeth am y rôl hon ac rydym yn nodi ei bod bellach yn cael ei chyflawni'n rhan-amser.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn cyhoeddi'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer y flwyddyn hyd at fis Mawrth erbyn i'r Ysgrifennydd Parhaol gymeradwyo a llofnodi'r Cyfrifon ar gyfer yr un flwyddyn ariannol. Dylai hyn ddechrau gyda'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2023 a'r Cyfrifon ar gyfer 2022-23. Bydd hyn yn sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu craffu ar y Datganiad Polisi Tâl bob blwyddyn, ochr yn ochr â'r cyfrifon.

# 5. Tryloywder

## Y Bwrdd a Phwyllgorau eraill

**97.** Yn ei adroddiad ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19, argymhellodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd yr adolygodd Llywodraeth Cymru ei dull o gyhoeddi papurau ar gyfer cyfarfodydd ei Bwrdd a'i Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.[59] Roedd yr argymhelliad hefyd yn gofyn i Lywodraeth Cymru beidio â chyfyngu hyn i agenda a chofnodion cryno. Mae'r papurau hyn ar gael i'r cyhoedd ar gyfer cyrff sector cyhoeddus eraill, megis sefydliadau'r GIG.

**98.** Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth Cymru a wnaeth, yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, gadarnhau y byddai agenda, cofnodion llawn a phapurau cysylltiedig y Bwrdd yn cael eu cyhoeddi "ac eithrio'r rhai sy'n cynnwys gwybodaeth swyddogol sensitif a manylion personol staff"[60].

**99.** Mewn perthynas â chyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, dywedodd y cyn-Ysgrifennydd Parhaol y canlynol:

> *"o ystyried natur sensitif llawer o'r papurau a'r angen i gynnig amgylchedd i aelodau allanol lle y gallant herio swyddogion mewn modd agored a gonest, na fyddai'n briodol cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd na phapurau cysylltiedig".*[61]

**100.** Trafododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ymateb Llywodraeth Cymru fel rhan o'i waith craffu ar Gyfrifon 2019-20. Er iddo gydnabod sensitifrwydd y wybodaeth a geir yng nghofnodion cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd

[59] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru
[60] Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 17 Gorffennaf 2020
[61] Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 17 Gorffennaf 2020

Risg, daeth i'r casgliad y gallai'r cofnodion, gyda'u golygu, gael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru[62].

**101.** Yn unol â hynny, fel rhan o'i adroddiad ar Gyfrifon 2019-20, argymhellodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fod agendâu cyfarfodydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru yn cael eu cyhoeddi gyda chrynodeb priodol o'r materion sy'n codi o'r cyfarfodydd[63]. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn yn ei hymateb i'r adroddiad (a anfonwyd at y Pwyllgor a olynodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, sef y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, ym mis Hydref 2021), gan nodi y byddai'r arfer newydd yn cychwyn o'i gyfarfod nesaf[64].

**102.** Ar 17 Chwefror 2023, y tro diwethaf i wefan papurau Bwrdd Llywodraeth Cymru gael ei diweddaru oedd ym mis Ionawr 2022, a phapurau'r cyfarfod ym mis Rhagfyr 2021 oedd y diweddaraf a oedd ar gael. Ar adeg y sesiwn graffu ar 2 Mawrth 2023, dim ond y papurau ar gyfer mis Ionawr 2022 a mis Mawrth 2022 oedd wedi'u cyhoeddi.

**103.** Pan ofynnwyd iddo am y bylchau o ran cyhoeddi papurau'r Bwrdd, esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol y canlynol:

> *"I do think that some of our corporate reporting through the pandemic probably just slipped, I'm afraid, which I apologise for. But I can confirm that the board minutes and the papers, and those appropriate papers aren't in the public domain. But, in my preparation, I've already made sure that they will be, that they will go on, they will also be translated and, although they will go on in sequence, we'll make sure that all of those are done by the end of May, including the 2023 board reports as well".*[65]

**104.** Mewn perthynas â chyhoeddi agendâu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a chrynodeb o'r materion sy'n cael eu trafod, mynegodd yr Ysgrifennydd Parhaol

---

[62] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Llywodraeth Cymru
[63] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Llywodraeth Cymru
[64] Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 15 Hydref 2021
[65] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 104

ei farn bod y dogfennau hyn yn wahanol o ran cyd-destun i bapurau Bwrdd Llywodraeth Cymru gan eu bod yn cynnwys meysydd eithaf sensitif ac anodd o safbwynt risg[66]. Aeth ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"I know that he (the Chair of the ARAC) is concerned about making sure that whatever we do, we respect the sensitivity of some particular issues and items in there. I do think that having some awareness of the issues that are, in very broad terms, under consideration probably helps".*[67]

**105.** Aeth yr Ysgrifennydd Parhaol ymlaen i gadarnhau y byddai'n trafod y mater â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, gan nodi ei fod yn teimlo bod ffordd o roi hyder am y pethau yr ymdrinnir â hwy heb ddatgelu'r holl fanylion[68]. Pan gafodd ei herio ar Lywodraeth Cymru yn derbyn argymhelliad blaenorol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar hyn, ymatebodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> *"… that was partly a reflection I was having with a Member about confirming that we had not put information from the audit and risk committee into the public domain, but just trying to find the right way of at least highlighting areas of interest. So, as I committed, I will talk to the chair of our risk and governance committee and just see whether there is some way to meet what still is an outstanding Public Accounts Committee Argymhelliad from the predecessor committee, and just see if there is a way of steering that in a different way— as long as I can, with Members here, recognise that there clearly are some issues of sensitivity".*[69]

[66] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 108
[67] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 109
[68] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 112
[69] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 118

**106.** Wrth ymateb i bwynt ynghylch tryloywder a'r angen i bapurau'r Bwrdd a'r deunyddiau cysylltiedig fod ar gael yn hawdd, gwnaeth yr Ysgrifennydd Parhaol sylw:

> *"... your point on openness and transparency is absolutely well made. I know it's not necessarily everybody who goes looking for these types of reports, but it's really important that they're there when they do".*[70]

**107.** Yn dilyn gwaith craffu'r Pwyllgor, diweddarodd Llywodraeth Cymru ei gwefan i adlewyrchu'r cyfarfodydd hyd at gyfarfod mis Ionawr 2023 ac yn ei gynnwys, gyda phapurau'r cyfarfodydd canlynol yn cael eu cyhoeddi rhwng 28 Chwefror 2023 a 28 Mawrth 2023 (ar adeg llunio'r adroddiad hwn).

## Aelodaeth y Bwrdd

**108.** Yng Nghyfrifon 2021-22, adroddodd Llywodraeth Cymru fod Jeff Farrar, a oedd wedi ymgymryd â'i rôl fel Cyfarwyddwr Anweithredol ym mis Chwefror 2018, wedi gadael ym mis Awst 2021, gan adael tri Chyfarwyddwr Anweithredol ar y Bwrdd[71]. Ni nododd Llywodraeth Cymru wybodaeth am benodi Cyfarwyddwr Anweithredol newydd.

**109.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor fod y Parchedig Aled Edwards wedi'i benodi ym mis Mawrth 2022, gan ddechrau'r rôl yn haf 2022[72]. Ymunodd y Parchedig Edwards â Meena Upadhyaya, Ellen Donovan a Gareth Lynn fel Cyfarwyddwyr Anweithredol. Aeth ymlaen i nodi bod un o'r Cyfarwyddwyr Anweithredol hyn (heb nodi pwy) ar fin gadael, a hynny ar ôl pedair blynedd. Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol y penodwyd un newydd, Carys Williams, yn gynnar, a oedd yn darparu cyfnod pontio, gan olygu y bu pum Cyfarwyddwr Anweithredol am gyfnod byr[73].

[70] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 106
[71] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 131
[72] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 115
[73] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 115

## Gwrthdaro buddiannau

**110.** Yn y Datganiad Llywodraethiant, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y canlynol:

> *"Mae sicrhau bod unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei reoli'n effeithiol yn agwedd allweddol ar unrhyw fframwaith llywodraethiant a system rheolaeth fewnol effeithiol".*[74]

**111.** Nododd fod rheolaethau Llywodraeth Cymru yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau corfforaethol sy'n ymdrin â chofrestrau gwrthdaro buddiannau a datganiad blynyddol gan yr holl staff sy'n cael eu cyhoeddi ar ei gwefan.

**112.** Diweddarwyd cofrestr gwrthdaro buddiannau'r Gwasanaeth Sifil ddiwethaf ym mis Gorffennaf 2022, a'r un ar gyfer cynghorwyr arbennig ym mis Medi 2022. Nid oedd y gofrestr buddiannau ar gyfer uwch-swyddogion, fel ar 14 Chwefror 2023, wedi'i diweddaru ers mis Hydref 2021.

**113.** Pan gafodd ei herio ynghylch yr oedi cyn cyhoeddi, esboniodd y Prif Swyddog Gweithredu y canlynol:

> *"The registers we have, both the civil service register and the register of interest, serve different processes and there are different timetables associated with that… The register for special advisers was updated in September. The one for senior officials will be updated by the end of the month. It's been slightly delayed in terms of getting it out there, but that's just down to the individual involved and some of the workload issues around that".*[75]

**114.** Aeth ymlaen i ddatgan bod prosesau sydd ar waith yn cymharu'n ffafriol â sefydliadau eraill roedd wedi bod yn rhan ohonynt, gan ddweud bod y lefelau tryloywder yn llawer mwy[76]. Gwnaethom herio swyddogion Llywodraeth Cymru

[74] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 150
[75] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 132
[76] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 132

ar yr amserlenni ar gyfer cyhoeddi'r cofrestrau hyn, gan dynnu cymhariaeth rhwng y gofynion ar gyfer aelodau etholedig a'r trefniadau sydd ar waith ar gyfer uwch-weision sifil yn Llywodraeth Cymru. Gwnaethom ofyn i'r swyddogion sut roeddent yn disgwyl i waith craffu ar y gofrestr gael ei wneud a sicrhau bod gan y cyhoedd hyder ynddi os yw'n cymryd cymaint o amser i'w chyhoeddi.

**115.** Wrth ymateb, ymddiheurodd yr Ysgrifennydd Parhaol am yr oedi cyn cyhoeddi a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r oedi'n cael sylw[77]. O ran prosesau llywodraethu, esboniodd y Prif Swyddog Gweithredu y canlynol:

> *"… there are clear responsibilities within the line management chain and with directors and directors general in terms of any potential conflicts that exist within their areas. There is internal scrutiny, and then there is external publication as well".*[78]

**116.** Dylid nodi bod rhai uwch-swyddogion wedi'u cynnwys ar gofrestr y gwasanaeth sifil a chofrestr yr uwch-swyddogion ond, mewn rhai achosion, nad oedd y wybodaeth, fel ar 14 Chwefror 2023, rhwng y ddwy gofrestr yn gyson.

**117.** Yn y Datganiad Llywodraethiant, esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod Llywodraeth Cymru wedi cynnal "adolygiad helaeth" o'i pholisïau a'i gweithdrefnau yn dilyn Adolygiad Archwilio Mewnol[79]. Roedd yr adolygiad hwn mewn ymateb i bryderon Gwasanaeth Sifil y DU am uwch-weision sifil yn dal penodiadau allanol sy'n anghydnaws â Chôd y Gwasanaeth Sifil. Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru "wrthi'n trafod diwygiadau i'r polisi gyda'n hundebau llafur ac yng ngoleuni canllawiau ychwanegol a gynhyrchwyd gan Swyddfa'r Cabinet y DU".

**118.** Pan ofynnwyd iddo am fyfyrdodau ar yr Adolygiad Archwilio Mewnol, datganodd y Prif Swyddog Gweithredu y canlynol:

[77] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 141
[78] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 142
[79] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 150

> *"I think the main findings of the review were a need to really review the policy and a robust review around that to take account of other changes that had gone in place, especially around the wider civil service; definitely to update the guidance and information for staff to make it easier to understand the requirements around that and make it clearer, giving examples of what this means in practice; and also to look at better ways to help staff to comply with the requirements there, especially around, maybe, a digital tool to help with it".*[80]

**119.** Nododd fod elfen arall o'r gwaith hwn wedi rhoi mwy o bwyslais ar gamau gwirio cyn cyflogi, gan esbonio'r canlynol:

> *"… one of the things I was asked to do as part of my employment was to fill in a form before I joined, and that's now part of the way we do things. So, in all of that, it's looking to make sure that we get a much more consistent approach across the organisation, but also we're looking to make sure that people understand the requirements and the importance of this".*[81]

**120.** Cadarnhaodd y Prif Swyddog Gweithredu y byddai'r polisi newydd yn cael ei weithredu yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol nesaf.[82]

**121.** Diweddarodd Llywodraeth Cymru y gofrestr buddiannau ar gyfer uwch-swyddogion yn dilyn gwaith craffu'r Pwyllgor, gyda'r diweddariad diweddaraf (ar adeg llunio'r adroddiad hwn) ar 6 Ebrill 2023.

## Archwilio Mewnol

**122.** Yn y Datganiad Llywodraethiant, adroddodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi "sicrwydd rhesymol" iddo ar weithrediad y

---

[80] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 125
[81] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 128
[82] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 128

fframwaith llywodraethiant, rheolaeth a rheoli risg yn Llywodraeth Cymru[83]. Roedd y Cyfrifon yn cynnwys crynodeb o'r adroddiadau archwilio mewnol wedi'u cyhoeddi yn ôl blwyddyn a barn sicrwydd[84].

**123.** Dangosodd hyn fod "Sicrwydd Cyfyngedig" wedi'i ddarparu ar gyfer tri o'r 44 o adroddiadau archwilio mewnol ar gyfer 2021-22, ac ni ddarperir barn ar gyfer dau arall, y nodir eu bod yn adroddiadau cryno. Nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth am yr adolygiadau penodol yn ei Chyfrifon, ond dywedodd y canlynol:

> *"Lle nodwyd gwendidau sylweddol, hyd yn oed pan gawsant eu cyfuno, nid oeddent yn berthnasol i'r farn gyffredinol. Ar ben hynny, ni chafodd unrhyw bryderon na gwendidau systemig na systematig eu nodi o'r corff o waith archwilio a gwblhawyd".*[85]

**124.** Darparodd Llywodraeth Cymru gyfres o enghreifftiau o wendidau sy'n arwain at farn "Sicrwydd Cyfyngedig," gan gynnwys[86]:

- Diffyg llwybr tystiolaeth clir a diamwys sy'n manylu ar sut y gwnaed penderfyniadau, y sail resymegol drostynt a'r broses awdurdodi.
- Diffyg llythyrau cynnig grant i reoli perthnasoedd ariannu.
- Trefniadau monitro aneffeithiol.
- Diffyg gwelededd / gwybodaeth reoli wael.
- Dogfennau canllaw heb eu diweddaru.
- Dim digon o wybodaeth reoli i ddangos cydymffurfiad.

**125.** Pan ofynnwyd iddo am y tri adroddiad Sicrwydd Cyfyngedig ar gyfer 2021-22, darparodd yr Ysgrifennydd Parhaol ragor o wybodaeth:

---

[83] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 144
[84] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 144
[85] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 144
[86] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 144

> *"One of the three areas was some of the support that was provided to bus companies through the pandemic. I would reflect that a lot of the internal audit areas were simply about the speed of response needed at the time, and that those actions and the response, although they were exceptional in terms, were being addressed, and the actions actually taken forward with the help of the report... In terms of the two other areas, one was on agency workers and another one was on secondment and broader arrangements, which we were touching on in one of our previous committees as well".*[87]

**126.** Dywedodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Gweithrediadau a Pherfformiad wrth y Pwyllgor fod y tîm Adnoddau Dynol wedi gweithio'n rhagweithiol gyda'r tîm archwilio mewnol ar y meysydd hyn, gan eu bod yn debygol o fod yn feysydd y mae angen eu gwella[88]. Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol ei foddhad â'r broses archwilio mewnol, gan esbonio ei fod yn cyfarfod yn rheolaidd â Phennaeth Archwilio Llywodraeth Cymru sy'n rhoi safbwyntiau diduedd a chyngor ar y sefydliad iddo, sy'n helpu i fynd i'r afael â materion ar draws y sefydliad[89].

**127.** Mewn perthynas â'r ddau adroddiad cryno a gyhoeddwyd heb farn sicrwydd, esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol y canlynol:

> *"The previous Permanent Secretary commissioned two pieces of advice, not for assurance purposes, but for allowing us to understand the kind of governance implications in the organisations, the first one of which was a review of COVID and lessons learnt and reflections— really important that that was an open reflection across the*

[87] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 145
[88] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 146
[89] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 149

> *organisation— and then secondly, an internal audit on COVID-19 governance arrangements”.*[90]

**128.** Nododd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y ddau adroddiad yn ddefnyddiol, gan iddynt gael eu llunio yn ystod y pandemig ac roeddent yn golygu y gallai'r sefydliad addasu a newid yn seiliedig ar hynny[91].

## Risgiau

**129.** Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn dweud y dylai cyrff gynnwys gwybodaeth am risgiau yn Rhannau 1 a 2 o'r Cyfrifon: dylai'r dadansoddiad perfformiad yn Rhan 1 gwmpasu risgiau mewn perthynas â pherfformiad, pa risgiau a wynebwyd a sut y cafodd y rhain eu lliniaru; a dylai'r Datganiad Llywodraethiant yn Rhan 2 adrodd ar yr adolygiad o'r system rheoli risg a rheolaeth fewnol.

**130.** Yn adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyfrifon 2018-19, roedd yn amlwg nad oedd yn galw am gynnwys holl gofrestr rsg Llywodraeth Cymru yn y Cyfrifon, ond argymhellodd fod Llywodraeth Cymru yn cynnwys crynodeb o’r risgiau allweddol ac unrhyw newidiadau iddynt yn ystod cyfnod y Cyfrifon[92]. Esboniodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y dylai hyn gynnwys gwybodaeth am effaith bosibl y risgiau a sut y mae’r rheini’n cael eu lliniaru.

**131.** Wrth ymateb i’r adroddiad, derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a dywedodd ei bod wedi “cofnodi’r prif risgiau ond nid ydym o reidrwydd wedi nodi manylion yr effeithiau posibl na’r camau lliniaru”. Cadarnhaodd yr ymateb yr eid i'r afael â hyn ar gyfer Cyfrifon 2019-20.[93]

**132.** Yn gyson â’r blynyddoedd blaenorol, mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio ei phroffil risg ar gyfer 2021-22 fel un “helaeth ac... amrywiol” yn ei Chyfrifon[94]. Mae'n nodi bod cofrestr risg benodol wedi'i chynnal ar gyfer COVID-19. Mae'r Cyfrifon yn

[90] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 156
[91] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 157
[92] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru
[93] Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 17 Gorffennaf 2020
[94] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 160

rhestru pedair risg newydd a ychwanegwyd at y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn ystod 2021-22 a nodiodd sut y cafodd y rhain eu lliniaru.[95]

- Paratoadau at yr Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19 yng Nghymru;
- Tarfu ar fusnesau oherwydd seiberfygythiadau;
- Oedi i uwchraddio'r system Adnoddau Dynol;
- Cymru fel Cenedl Noddfa.

**133.** Wrth ymateb i gwestiwn am y risgiau sydd fwyaf tebygol o ddigwydd, gyda'r effaith fwyaf posibl, datganodd yr Ysgrifennydd Parhaol y canlynol:

> *"The main area of concern that was expressed in 2021-22 in respect of the areas, the highest scoring concern, was actually about workforce capacity. That probably isn't a surprise to us all, if you think about what we'd been living through at that time. The last six months of 2021-22 also were dominated by omicron. We even were manoeuvring into the first-step responses on Ukraine… at various points, we probably had four fifths of the organisation simply pointed towards the pandemic response, particularly through 2020 into 2021. But workforce capacity was the highest scoring risk".*[96]

**134.** Mewn perthynas â risg capasiti'r gweithlu, cydnabu'r Ysgrifennydd Parhaol fod terfynau i allu Llywodraeth Cymru i ddeddfu oherwydd capasiti, ond aeth ymlaen i nodi'r canlynol:

> *"I would say that from a programme for government perspective, delivering legislation is actually at the top of the responsibilities and the functions of Welsh Government. That ability to discharge those law-making powers is really important. But I have been able, even in difficult budgetary terms, to put more resource towards our legal areas, whether that is Bill managers, whether it's on the policy side, or indeed whether it's some of our legal teams as well. I've been able to*

[95] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 160-161
[96] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 169

> *address, maybe, some of the residual concerns around that, but I don't see the capacity issues as a constraint".*[97]

**135.** Soniodd fod llesiant staff, materion ynghylch deddfwriaeth, costau chwyddiant, seiberddiogelwch a pharatoi at yr ymchwiliad cyhoeddus i'r pandemig ymhlith y risgiau ar y lefel nesaf[98].

## Ein barn ni

**136.** Mae'n bwysig bod papurau'r Bwrdd ar gael i'r cyhoedd a hynny'n brydlon at ddibenion atebolrwydd a thryloywder. Rydym yn nodi'r oedi yn ystod y pandemig. Er ei bod yn siomedig nad oedd y papurau ar gael ar adeg ein gwaith craffu ar Gyfrifon 2021-22, nodwn fod Llywodraeth Cymru wedi diweddaru ei gwefan wedi hynny. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i barhau i wneud hyn a byddem yn croesawu gwybodaeth ynghylch pa mor fuan ar ôl pob cyfarfod Bwrdd y mae'n bwriadu sicrhau bod yr agenda a'r papurau ar gael i'r cyhoedd.

**137.** Gyda'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol wedi trafod ffordd ymlaen, a chytuno arni, yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor a'n rhagflaenodd, rydym yn drysu pam nad yw gwybodaeth am gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar gael i'r cyhoedd eto. Nid yw'n glir i ni pam y mae'r Ysgrifennydd Parhaol am drafod â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a gytunodd ar y ffordd ymlaen yn dilyn trafodaeth â'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithredu argymhelliad y Pwyllgor a'n rhagflaenodd cyn gynted â phosibl. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd ar gyfer cyfarfodydd o fis Ionawr 2022 ymlaen.

**138.** Rydym yn croesawu'r diweddariad gan yr Ysgrifennydd Parhaol am y Cyfarwyddwyr Anweithredol a benodwyd i'r Bwrdd. Fodd bynnag, nodwn fod hyn yn golygu mai dim ond dau Gyfarwyddwr Anweithredol oedd ar y Bwrdd rhwng mis Awst 2021 a mis Mawrth 2022, yn hytrach na'r tri arferol. Byddem yn croesawu gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch pam y cymerodd cyhyd

[97] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 174
[98] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 170

i gael Cyfarwyddwr Anweithredol newydd ar ôl iddo ymddiswyddo ym mis Awst 2021.

**139.** Dywedwyd wrthym fod y tair cofrestr buddiannau'n gwasanaethu dibenion gwahanol ac y cawsant eu cwblhau yn ôl amserlenni gwahanol. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn esbonio'r rheswm dros hyn. Dylid hefyd esbonio pam y mae'r cofnodion arnynt yn wahanol.

**140.** Rydym yn pryderu na chafodd y gofrestr buddiannau ar gyfer uwch-swyddogion, a oedd ar gael i'r cyhoedd, ei diweddaru am 18 mis (o fis Hydref 2021 i fis Ebrill 2023). Rydym yn derbyn yr ymddiheuriad a roddwyd i ni gan yr Ysgrifennydd Parhaol ac rydym yn fodlon ar yr esboniad o ystyried y dilynwyd prosesau llywodraethu mewnol o ran y buddiannau a ddatgelwyd. Fodd bynnag, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'n rheolaidd y cofrestrau sydd ar gael i'r cyhoedd ac yn sicrhau y cânt eu diweddaru.

**141.** Clywsom am gynlluniau Llywodraeth Cymru i adolygu ei pholisi ar wrthdaro buddiannau. Byddem yn croesawu diweddariad am hyn cyn gynted â phosibl, ar ôl cwblhau trafodaethau ag undebau llafur. Dylai'r diweddariad hwn esbonio'r newidiadau y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cyflwyno ac i ba raddau y mae'r rhain yn mynd i'r afael â chanfyddiadau'r adolygiad gan ei Gwasanaethau Archwilio Mewnol.

**142.** Gwnaethom ofyn am wybodaeth am y tri adroddiad y daeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru i'r casgliad bod ei gwaith yn rhoi sicrwydd cyfyngedig. Barn y Pwyllgor yw y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys, yn ei Chyfrifon, fwy o wybodaeth am yr adroddiadau archwilio a gyhoeddwyd pan roddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol sicrwydd cyfyngedig neu ddim sicrwydd, yn ogystal â gwendidau sylfaenol a nodwyd gan y Gwasanaethau Archwilio Mewnol. Dylai hyn gynnwys sylwadau am ymateb y rheolwyr i'r canfyddiadau a'i chynlluniau i wella'r fframwaith rheolaeth a mynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

**143.** Er ei bod wedi derbyn argymhelliad y Pwyllgor a'n rhagflaenodd, nodwn nad yw Llywodraeth Cymru yn crynhoi'r prif risgiau a wynebodd ond ei bod yn bennaf yn sôn am y risgiau newydd a ychwanegwyd yn ystod y flwyddyn. Rydym yn ailadrodd yr argymhelliad a wnaeth y Pwyllgor a'n rhagflaenodd.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu gwybodaeth ynghylch pa mor fuan ar ôl pob cyfarfod Bwrdd y mae'n bwriadu sicrhau bod yr agenda a'r papurau ar gael i'r cyhoedd yn brydlon.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd argymhelliad y Pwyllgor a'i rhagflaenodd ar gyhoeddi cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi, o leiaf, agenda ei Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ynghyd â chrynodeb priodol o'r materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny. Felly, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y wybodaeth hon yn cael ei chyhoeddi'n ôl-weithredol ac yn brydlon yn y dyfodol.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu esboniad pam na phenododd Gyfarwyddwr Anweithredol tan fis Mawrth 2022 yn dilyn ymddiswyddiad Jeff Farrar ym mis Awst 2021.

**Argymhelliad 14.** Dylai Llywodraeth Cymru rannu â'r Pwyllgor gasgliadau ei hadolygiad o'i pholisi gwrthdaro buddiannau cyn gynted ag y mae ar gael, gydag esboniad llawn o ddiwygiadau arfaethedig ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael ag adolygiad a chasgliadau ei Gwasanaethau Archwilio Mewnol.

**Argymhelliad 15.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn ei chyfrifon lle y mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn darparu sicrwydd cyfyngedig neu ddim sicrwydd, yn ogystal â lle y mae'r Gwasanaethau Archwilio Mewnol yn nodi gwendidau sylfaenol. Dylai'r wybodaeth ychwanegol hon gynnwys sylwadau am ymateb y rheolwyr i'r canfyddiadau a sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion a nodwyd.

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd argymhelliad y Pwyllgor a'i rhagflaenodd ar adrodd risgiau. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnwys crynodeb o'r prif risgiau a newidiadau iddynt yn ystod cyfnod y cyfrifon. Dylai hyn nodi gwybodaeth am effaith bosibl y risgiau a sut y mae'r rheini'n cael eu lliniaru. Yn gyson ag argymhelliad y Pwyllgor a'n rhagflaenodd, nid ydym yn galw am gynnwys holl gofrestr risg Llywodraeth Cymru yn ei chyfrifon.

# 6. Adrodd ar Berfformiad

## Cynnydd

**144.** Roedd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn ei adroddiad ar Gyfrifon 2017-18, yn anghytuno â barn y cyn-Ysgrifennydd Parhaol na ddylid cynnwys adrodd ar berfformiad yn erbyn amcanion polisi yng Nghyfrifon Llywodraeth Cymru oherwydd ei fod yn fater i Weinidogion Cymru[99]. Gwnaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus argymhellion cysylltiedig yn ei adroddiadau craffu ar gyfer 2016-17 a 2017-18.

**145.** Wrth ymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyfrifon 2017-18, dywedodd Llywodraeth Cymru fod un o'i Chyfarwyddwyr Anweithredol wedi cael cais i arwain grŵp gorchwyl a gorffen i ddatblygu "cyfres o ddangosyddion perfformiad allweddol gwell a systematig"[100]. Wrth ymateb i dystiolaeth y cyn-Ysgrifennydd Parhaol ym mis Rhagfyr 2020 nad oedd yn bryd cynnwys manylion llawn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yng Nghyfrifon 2019-20, yn rhannol am eu bod yn adnodd mewnol i helpu Llywodraeth Cymru i wella ei pherfformiad, dywedodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y canlynol:

> *"Barn y Pwyllgor yw y dylai Llywodraeth Cymru ddangos esiampl o ran ei dull o adrodd ar berfformiad. Rydym yn argymell yn gryf bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu ei pherfformiad yn erbyn pob un o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn ei Hadroddiad Blynyddol. Dylai hyn adlewyrchu arfer gorau o ran cynnwys a chyflwyno'r wybodaeth hon".*[101]

**146.** Ym mis Mawrth 2021, darparodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus am ei Dangosyddion Perfformiad Allweddol, a gafodd eu categoreiddio o dan ddwy thema, sef "priodoleddau" a "swyddogaethau"[102]. Nododd y diweddariad fod Llywodraeth Cymru wedi

---

[99] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2017-18: Llywodraeth Cymru
[100] Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 30 Ebrill 2019
[101] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Llywodraeth Cymru
[102] Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 5 Mawrth 2021

gwneud y cynnydd mwyaf gyda'i Dangosyddion Perfformiad Allweddol priodoleddau, gan ei bod yn "haws tynnu ynghyd y data", a chafodd pob un o'r saith mesur priodoledd eu datblygu a'u hadrodd i'r Bwrdd yn 2020. Ar yr adeg honno, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r gwaith o ddatblygu pob un o'r un ar ddeg o'i themâu swyddogaeth, ac eithrio ar dreth, a gyfeiriwyd at Awdurdod Cyllid Cymru.

**147.** Ym mis Hydref 2021, dywedodd y cyn-Ysgrifennydd Parhaol fod gwaith ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi gwneud cynnydd sylweddol, gan ychwanegu'r canlynol:

> *"bydd fy olynydd Andrew Goodall am ystyried a yw hwn yn ddull y mae am barhau ag ef a'i ddatblygu ymhellach, gan ymgynghori â'r Prif Weinidog".*[103]

**148.** Yng Nghyfrifon 2021-22, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> *"Nod Fframwaith Llywodraeth Cymru yw sbarduno gwelliannau yn effeithiolrwydd trefniadol Gwasanaeth Sifil Cymru drwy ganolbwyntio ar berfformiad gweithredol a chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol mewn perthynas â rhedeg y sefydliad".*[104]

**149.** Pan ofynnwyd iddo sut y mae'r fframwaith perfformiad yn ysgogi gwelliant o ran effeithiolrwydd sefydliadol, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y canlynol:

> *"I think it does provide us with a really wide range of information to tell us about the characteristics of the organisation. So, from a reporting process, we make sure that it can be looked at at a higher assurance level by the board, from a decision-making perspective, our executive committee, and… in the engine room of the organisation…".*[105]

[103] Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 15 Hydref 2021
[104] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Blynyddol, tudalen 66
[105] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 182

**150.** Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol sut yr oedd y cyfrifon yn adrodd ar welliannau o ran effeithiolrwydd sefydliadol ac a oedd Llywodraeth Cymru yn cynnig newid yr arferion adrodd hyn yn y dyfodol. Wrth ymateb, disgrifiodd lefelau gwell o ymgysylltu â'r arolwg staff[106], defnyddio technoleg mewn meysydd fel gweithio'n glyfar[107], gwelliannau o ran allyriadau carbon a ffactorau amgylcheddol eraill[108] ac mewn perthynas ag amrywiaeth, cydraddoldeb a chynhwysiant[109] fel meysydd o effeithiolrwydd sefydliadol sydd wedi gwella.

**151.** Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am ragor o waith i ddatblygu'r Fframwaith, yn ein llythyr ar 26 Mawrth 2023[110]. Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol gan ddweud y canlynol:

> *"Mae'r Fframwaith a'r dangosyddion ynddo wedi'u cwblhau, er eu bod wrthi'n cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau cyfredol a/neu wrth i ffynonellau data eraill ddod ar gael fel rhan o broses o ddigideiddio prosesau sefydliadol a datblygiadau eraill".*[111]

**152.** Yn ei ymateb, mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn mynd ymlaen i egluro nad oedd un thema, Llunio Polisïau, wedi bod yn destun adrodd eto yn y Cyfrifon gan fod "y mesurau ar gyfer y thema hon yn dal i gael eu datblygu".

## Adrodd

**153.** Yn ei Chyfrifon, adroddodd Llywodraeth Cymru fod y Bwrdd wedi trafod ei themâu priodoledd ym mis Mawrth 2022, pan ystyriodd yr adroddiad cyntaf ar gylch 2021-22.[112]. Cytunodd y Bwrdd y dylai adroddiadau yn erbyn y fframwaith

---

[106] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 190
[107] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 191
[108] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 192
[109] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Mawrth 2023, paragraff 193
[110] Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, 26 Mawrth 2023
[111] Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 6 Ebrill 2023
[112] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Blynyddol, tudalen 68

gael eu hadolygu'n gyson er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd â strategaeth Llywodraeth Cymru yn ogystal â sicrhau "integreiddio effeithiol â mecanweithiau sefydliadol ehangach"[113].

**154.** Mewn perthynas â'i themâu swyddogaeth, trafododd y Bwrdd yr ail adroddiad ynglŷn â'r pwnc hwn ym mis Gorffennaf 2022. Yn y sesiwn, cytunodd y Bwrdd ar dri maes ffocws allweddol i'w gweithredu, sef:

> *"… y dylai Llywodraeth Cymru barhau i wella ei gwaith ar gyflwyno rhaglen ddeddfwriaethol o ansawdd uchel, y dylai barhau â'i ffocws presennol ar y gallu i reoli rhaglenni a phrosiectau ac, er bod y dangosyddion yn y thema hon yn dal i gael eu datblygu, y dylai sicrhau o hyd ei bod yn parhau i ganolbwyntio ar gamau gweithredu er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisïau a rhoi cyngor o'r radd flaenaf".*[114]

**155.** Yn ei lythyr ar 6 Ebrill 2023, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod dadansoddwyr yng Ngwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru sy'n "darparu asesiad annibynnol o berfformiad"[115] yn rheoli'r Fframwaith ac yn adrodd arno. Dywedodd y canlynol:

> *Mae'n bwysig fod y Fframwaith yn adweithiol i flaenoriaethau sefydliadol sy'n dod i'r amlwg. Mae gwaith ar y gweill i gysoni'r fframwaith â LlC2025 a'r pedwar o werthoedd newydd ar gyfer Llywodraeth Cymru, yr adroddir yn eu herbyn ar gyfer cylch 2022-23. Nid ydym yn rhagweld y bydd hyn yn effeithio ar y trefniadau adrodd na'r llywodraethiant fel y'u nodir uchod.*

## Ein barn ni

**156.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod gwybodaeth am Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru wedi'i chynnwys yng Nghyfrifon 2021-22, gan gynnwys y

[113] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Blynyddol, tudalen 68
[114] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Blynyddol, tudalen 70
[115] Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 6 Ebrill 2023

mesurau ar gyfer y themâu priodoleddau a swyddogaethau. Mae hefyd yn ddefnyddiol nodi ystyriaethau'r Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd ynghylch y Fframwaith.

**157.** Fodd bynnag, yn ein barn ni, nid yw'n glir o'r wybodaeth hon sut y mae'r Fframwaith yn ysgogi gwelliant ac effeithiolrwydd sefydliadol, gan nad yw'r naratif yn cynnwys targedau na sylwadau ar berfformiad yn erbyn mesurau penodol. Yn niffyg hyn, nid yw'n bosibl gwirio hyd yma a yw Llywodraeth Cymru yn bodloni'r lefelau perfformiad a ddymunir, yn rhagori arnynt neu'n methu â'u cyflawni. Felly, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r wybodaeth y mae'n ei chynnwys yn ei chyfrifon blynyddol am ei Fframwaith Perfformiad.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r wybodaeth y mae'n ei chynnwys yn y cyfrifon am ei Fframwaith Perfformiad, oherwydd heb dargedau ar gyfer mesurau penodol, a sylwadau arnynt, nid yw'n bosibl deall sut y mae Llywodraeth Cymru yn perfformio.

# 7. Colledion, diddymiadau a thaliadau arbennig

## Colledion a diddymiadau

**158.** Dywed Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru mai "Dim ond ar ôl ystyried y ffeithiau'n ofalus (gan gynnwys a gymerwyd pob cam rhesymol i adennill gordaliadau) y dylai Llywodraeth Cymru ystyried derbyn colledion a dyledion a ddilëwyd"[116]. Mae'n mynd ymlaen i ddweud y canlynol:

> *"Dylid dwyn colledion i [sylw'r Senedd] cyn gynted â phosibl, fel arfer drwy eu nodi yng nghyfrifon blynyddol Gweinidogion Cymru, p'un a gânt eu lleihau gan symiau a adenillir ar ôl hynny ai peidio. Ar gyfer colledion difrifol, dylai adrannau hefyd ystyried yr achos dros gyflwyno datganiad ysgrifenedig [i'r Senedd]".*[117]

**159.** Adroddodd y Cyfrifon ar 150 o golledion gyda chyfanswm gwerth cyfanredol o £12.3 miliwn yn 2021-22. O'r rhain, roedd gan chwe cholled werth unigol o dros £300,000, gan gynnwys colled adeiladol o tua £9 miliwn yn gysylltiedig â dileu costau ar gyfer Cyffyrdd 14 i 16A yr A55.

**160.** Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd cyn-Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ddatganiad ysgrifenedig am leihau gwerth asedau sy'n gysylltiedig â ffordd liniaru'r M4 o amgylch Casnewydd[118] (£43.1 miliwn) ac arian sy'n ddyledus gan Gwmni Datblygu Blaenau'r Cymoedd (£14.9 miliwn)[119].

**161.** Adroddwyd ar y materion hyn yng Nghyfrifon 2019-20.[120]

---

[116] Llywodraeth Cymru, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, Ionawr 2016, A4.9.1
[117] Llywodraeth Cymru, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, Ionawr 2016, A4.9.6
[118] Llywodraeth Cymru, Datganiad ysgrifenedig: Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru - yr M4 - Lleihau gwerth asedau mae Llywodraeth Cymru yn berchen arnynt, 15 Gorffennaf 2020
[119] Llywodraeth Cymru, Datganiad ysgrifenedig: Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru – Dileu Dyledion Heads of the Valleys Development Company i Lywodraeth Cymru, 16 Gorffennaf 2020
[120] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 94

- Ysgrifennodd y Pwyllgor at yr Ysgrifennydd Parhaol ar 21 Mawrth 2023 i ofyn am ragor o wybodaeth am y colledion a'r diddymiadau hyn, gan gynnwys:

- Y swm roedd Llywodraeth Cymru wedi'i ddileu a'i adrodd yng Nghyfrifon 2021-22, fesul cynllun, yn dilyn yr Adolygiad Ffyrdd, ynghyd â'r swm y byddai'n ei ddileu yn 2022-23.

- Sut y mae Llywodraeth Cymru yn asesu gwerth a gedwir data a gwaith paratoi arall ar gyfer y cynlluniau hyn.

- A yw Llywodraeth Cymru neu Weinidogion Cymru wedi hysbysu'r Senedd o'r penderfyniad i ddileu gwariant £9 miliwn a oedd yn ymwneud â chyffyrdd 14 i 16A yr A55.

**162.** Yn ei ymateb, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol mai'r unig ddilead gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chynlluniau ffyrdd yng Nghyfrifon 2021-22 oedd £9 miliwn sy'n ymwneud â chostau Cyffyrdd 14 i 16A yr A55[121]. Nododd fod adolygiad amhariadau llawn yn cael ei gynnal yn 2022-23 i ganfod gwerth cadwedig data a gwaith paratoi arall. Pe na bai gwerth cadwedig yn cael ei nodi, gallai'r dilead fod cymaint â thua £12 miliwn (ac eithrio'r dilead £9 miliwn sydd wedi'i brosesu eisoes). Nododd y llythyr gyfres o feini prawf ar gyfer asesu gwerth cadwedig.

**163.** Cadarnhaodd yr ymateb hefyd mai dim ond yn y Cyfrifon yr adroddwyd ar y dilead a grybwyllwyd, ac ni ddarparwyd datganiad ysgrifenedig i'r Senedd amdano. Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn nad oedd y dilead yn "ddifrifol", gan ei fod yn rhan o "benderfyniad cyfreithlon a wnaed gan Weinidogion i atal cynllun", (h.y. nid drwy dwyll neu rywbeth tebyg) [122]. Roedd Llywodraeth Cymru yn dadlau y cyhoeddwyd lefel y gwariant eisoes fel rhan o'r cyhoeddiad i atal y cynllun. Felly, dangoswyd tryloywder.

[121] Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 6 Ebrill 2023
[122] Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 6 Ebrill 2023

**164.** Roedd y llythyr hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut y diffinnir colled "ddifrifol" at y dibenion hyn, gan nodi nad oes diffiniad atodol wedi'i ddarparu yng nghanllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

## Adfachu

**165.** Ysgrifennodd y Pwyllgor at yr Ysgrifennydd Parhaol, ar 21 Mawrth 2023 i ofyn am wybodaeth ychwanegol am sut y mae Llywodraeth Cymru yn adfachu arian gan gwmnïau[123]. Yn ei ymateb, cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod Llywodraeth Cymru fel arfer yn disgwyl ad-daliad o fewn 30 diwrnod calendr i ddyddiad codi'r anfoneb, ond bod Llywodraeth Cymru yn gefnogol i ddyledwyr sy'n "cael anawsterau"[124]. Aeth ymlaen i ddweud, wrth drafod newidiadau i'r telerau ar gyfer ad-dalu, y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried "maint y sefydliad, y gallu i dalu a ffactorau cysylltiedig eraill". Ychwanegodd y canlynol:

> *"Mae polisi Llywodraeth Cymru yn datgan ei bod yn hanfodol i bob dull o ddatrys anghydfod neu weithio trwy drafferthion ariannol dyledwr gael eu disbyddu cyn cymryd unrhyw gamau cyfreithiol neu gamau mewn llys. Mae polisi Llywodraeth Cymru yn berthnasol i fenthyciadau a grantiau er bod y swm sydd i'w adennill yn gallu amrywio, yn dibynnu ar Delerau ac Amodau'r grant, y cyllid neu'r benthyciad".*

## Taliadau arbennig

**166.** Adroddodd Llywodraeth Cymru y gwnaed 21 o daliadau arbennig yn 2021-22 gyda gwerth cyfanredol £1.4 miliwn[125]. O'r rhain, roedd dau am dros £300,000 a chawsant eu disgrifio fel taliadau "ex-gratia". Talwyd £325,000 i Hardshell UK Limited a £330,000 i Surviva Limited. Adroddodd Llywodraeth Cymru y gwnaed y taliadau hyn "i liniaru caledi a brofwyd mewn ymateb i argyfwng PPE Covid"[126].

[123] Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus at Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, 21 Mawrth 2023
[124] Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 6 Ebrill 2023
[125] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 168
[126] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 168

**167.** Yn ei Chyfrifon, esboniodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi annog "[b]usnesau lleol i ddatblygu'r gallu i gymryd rhan yng nghadwyni cyflenwi'r sector cyhoeddus"[127] a bod y cwmnïau hyn wedi datblygu'r gallu i gyflenwi PPE i'r sector cyhoeddus. Fodd bynnag, gwnaeth busnesau:

> *"... [d]dioddef trallod gan na chafodd y galw disgwyliedig ei wireddu. Gofynnodd y ddau gwmni am gymorth ariannol i liniaru'r trallod a achoswyd ac i roi cynllun i oroesi ar waith. Ar sail yr wybodaeth a ddarparwyd, cymeradwywyd taliadau ex-gratia i liniaru'r caledi a brofwyd. Cafodd Hardshell UK Limited £325,000 a chafodd Surviva Limited £330,000".*[128]

**168.** Fel gyda'r colledion a'r diddymiadau, ysgrifennodd y Pwyllgor at yr Ysgrifennydd Parhaol ar 21 Mawrth 2023 i ofyn am ragor o wybodaeth am y taliadau hyn.

**169.** Yn ei ymateb ar 6 Ebrill 2023, nododd yr Ysgrifennydd Parhaol fod "defnyddio caffael cyhoeddus i greu cadwyni cyflenwi lleol cryf yn amcan hirsefydlog gan Lywodraeth Cymru"[129]. Nododd fod y taliadau am gymorth ariannol i liniaru caledi pan na wireddwyd y galw am Offer Diogelu Personol ar gyfer y sector cyhoeddus drwy fusnes i gwmnïau yng Nghymru. Ychwanegodd y canlynol:

> *"Mewn achosion fel hyn bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried fesul achos a yw sefydliad wedi cael ei effeithio'n anghymesur os oedd wedi gweithredu ar sail sylwadau gan Lywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru.*
>
> *Rhaid i unrhyw ystyriaeth am gymorth ariannol gael ei gwneud yn unol â'r fframwaith Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a'r dystiolaeth a'r sylwadau a wneir gan y busnes a gafodd ei effeithio".*

[127] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 153
[128] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 153
[129] Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 6 Ebrill 2023

**170.** Eglurodd fod y symiau a dalwyd wedi'u cyfrifo o ddadansoddi gwybodaeth ariannol a ddarparwyd gan y cwmnïau i Lywodraeth Cymru. Ni wnaed rhagor o daliadau o gyllideb yr Economi at y dibenion hynny yn 2021-22. Fodd bynnag, ychwanegodd yr Ysgrifennydd Parhaol y canlynol:

> *Mae unrhyw daliadau ex-gratia yn rhan o ddatgeliad taliadau a ddiffinnir gan Reoli Arian Cyhoeddus Cymru fel 'Taliadau Arbennig'. Mae unrhyw daliadau dros £300,000 yn cael eu datgelu yn y Datganiad Llywodraethiant o dan Ran 2 o Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru.*
>
> *Nid oedd unrhyw daliadau ex-gratia pellach yn gofyn am ddatgeliad ar wahân".*[130]

## Ein barn ni

**171.** Rydym yn nodi, er bod y £9 miliwn a ddilëwyd yn ymwneud â chostau Cyffyrdd 14 i 16A yr A55 wedi cael ei gyhoeddi yng Nghyfrifon Llywodraeth Cymru a'i gynnwys yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru am gynlluniau ffyrdd, na chafodd ei adrodd i'r Senedd. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol nad oedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod yr achos hwn yn "ddifrifol". Fodd bynnag, nodwn nad yw Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru yn diffinio'r term hwn. Yn ein barn ni, oherwydd y newid sylweddol mewn cyfeiriad polisi a'r costau cysylltiedig sylweddol, dylai'r golled hon fod wedi'i hadrodd i'r Senedd er mwyn bod yn gwbl agored a thryloyw.

**172.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ffordd y mae'n adrodd colledion i'r Senedd ac yn egluro i'r Pwyllgor sut y mae'n diffinio colledion "difrifol," yn unol â pharagraff A4.9.6 o Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, i sicrhau bod colledion yn cael eu hadrodd yn briodol i'r Senedd.

**173.** Rydym hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad cynhwysfawr ar ôl cwblhau ei hadolygiad amhariadau er mwyn canfod gwerth

[130] Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 6 Ebrill 2023

cadwedig data a gwaith paratoi arall ar gyfer y cynlluniau ffyrdd. Dylai hyn nodi faint y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddileu yn 2022-23.

**174.** Ar bwynt mwy cyffredinol, rydym yn nodi y diweddarwyd Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru ddiweddaf ym mis Hydref 2018. Yn ei Chyfrifon ar gyfer 2021-22, dywedodd Llywodraeth Cymru fod ei Chanolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol wedi dechrau adnewyddu Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru ym mis Ebrill 2021. Roedd y gwaith hwn wedi'i gynllunio ond ni chafodd ei wneud yn 2020 oherwydd y pandemig. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r amserlen gynlluniedig i'r Pwyllgor ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn a'r dyddiad disgwyliedig ar gyfer cyhoeddi'r canllawiau diwygiedig.

**175.** Rydym yn croesawu'r wybodaeth ychwanegol am y taliadau ex-gratia i Hardshell UK Limited a Surviva Limited. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn nodi'r holl wybodaeth y gwnaethom ofyn amdani. Nid yw'r ymateb yn darparu'r holl wybodaeth y gwnaethom ofyn amdani gan ei bod yn cyfeirio at Brif Grŵp Gwariant yr Economi yn unig ac nid oedd yn glir a oedd taliadau o'r fath wedi'u gwneud o feysydd eraill o gyllideb Llywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn nodi na roddodd yr ymateb sicrwydd ynghylch y trefniadau llywodraethu o ran y taliadau, megis y broses a fabwysiadwyd ar gyfer ystyried yr achosion a phwy a wnaeth gymeradwyo'r taliadau. Nid yw'n dweud ychwaith a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud unrhyw waith sicrwydd arall a pha wersi, os o gwbl, y mae wedi'u dysgu o'r broses. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth hon i'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 18.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r ffordd y mae'n adrodd colledion i'r Senedd a rhoi esboniad o'r hyn y mae'n ei ystyried yn golled "ddifrifol", yn unol â pharagraff A4.9.6 o Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

**Argymhelliad 19.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu diweddariad i'r Pwyllgor ar ôl cwblhau ei hadolygiad amhariadau er mwyn canfod gwerth cadwedig data a gwaith paratoi arall ar gyfer y cynlluniau ffyrdd.

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru roi gwybodaeth i'r Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer diweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, ynghyd â syniad o ran pryd y disgwylir iddo gael ei gyhoeddi.

**Argymhelliad 21.** Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am y taliadau ex-gratia a wnaed i Hardshell UK Limited a Surviva Limited, yn ychwanegol at yr hyn a ddarparwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn ei lythyr ar 6 Ebrill 2023. Dylai hyn nodi gwybodaeth am y trefniadau llywodraethu o ran y taliadau hyn, gan gynnwys y broses a fabwysiadwyd ar gyfer ystyried y ceisiadau a wnaed a phwy a wnaeth gymeradwyo'r taliadau. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ddarparu gwybodaeth am unrhyw waith sicrwydd arall a wnaed a'r wers a ddysgodd o'r broses hon.

**Argymhelliad 22.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion am nifer y cwmnïau y gwnaeth daliadau ex-gratia iddynt ar gyfer cyfarpar diogelu personol COVID-19 o gyllidebau heblaw'r un ar gyfer Prif Grŵp Gwariant yr Economi, yn ogystal â'u gwerth cyfanredol. Dylid darparu hyn fesul blwyddyn ariannol.

# 8. Cynllunio'r gweithlu

## Cefndir

**176.** Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar gynllunio'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru ar 8 Medi 2022[131]. Cytunodd y Pwyllgor i gymryd tystiolaeth ar gynnwys yr adroddiad, ochr yn ochr â chraffu ar y Cyfrifon ar gyfer 2021-22.

**177.** Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn ystyried a oedd gan Lywodraeth Cymru ddull cadarn o gynllunio'r gweithlu, gan fyfyrio ar gynllunio'r gweithlu'n weithredol, y dull sy'n dod i'r amlwg o gynllunio'r gweithlu'n strategol a'r ymateb i'r anghenion ar hyn o bryd o ran y gweithlu.

**178.** Gwnaeth yr adroddiad gyfres o argymhellion mewn perthynas â thri maes o ddiddordeb:

1. Strategaeth a chynllunio - dylai Llywodraeth Cymru roi blaenoriaeth i ddatblygu ei strategaeth ar gyfer y gweithlu. Yn arbennig, mae angen i'r gwaith hwn wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chynnwys:

   (a) asesiad clir o anghenion hirdymor o ran y gweithlu yn y dyfodol i gyflawni blaenoriaethau polisi yn ogystal â swyddogaethau statudol craidd;

   (b) trywydd clir i bontio unrhyw fylchau rhwng maint a galluoedd y gweithlu ar hyn o bryd a'r anghenion ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys unrhyw gynlluniau ar gyfer mecanweithiau cyflawni amgen;

   (c) proses eglur a chadarn ar gyfer blaenoriaethu llwyth gwaith o fewn terfynau'r adnoddau sydd ar gael;

   (d) cynllunio ar gyfer olyniaeth i sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o weision sifil yn cael y cyfle i ymuno â'r gweithlu a datblygu;

[131] Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, Medi 2022

(e) cysoni'r strategaeth â nodau polisi ehangach, yn anad dim i gysoni'r dull recriwtio â nodau o ran cydraddoldeb, gan gynnwys lleihau anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol yng Nghymru; a

(f) cherrig milltir eglur ar gyfer cyflawni a system gadarn ar gyfer monitro a gwerthuso cynnydd a diweddaru'r strategaeth yng ngoleuni gwersi a ddysgwyd.

2. Gwybodaeth reoli – dylai Llywodraeth Cymru gryfhau data'r gweithlu a systemau tanategol i roi cymorth i gynllunio'r gweithlu a rheoli staff o ddydd i ddydd, gan gynnwys galluogi grwpiau a rheolwyr i gael mynediad uniongyrchol gwell at ddata'r gweithlu a lleihau'r ddibyniaeth ar goladu gwybodaeth am y gweithlu â llaw.

3. Rheoli'r gweithlu'n weithredol – dylai Llywodraeth Cymru adolygu Fframwaith Dirprwyo ac Atebolrwydd y Gweithlu ddwy flynedd ar ôl ei gyflwyno i werthuso'i effeithiolrwydd o ran galluogi rheolaeth fwy hyblyg ac ymatebol ar y gweithlu, a'i gyfraniad tuag at amcanion y strategaeth ehangach ar gyfer y gweithlu.

**179.** Daeth yr adroddiad i'r casgliad a ganlyn:

> *"Mae Llywodraeth Cymru wedi wynebu pwysau gweithredol sylweddol o ran y gweithlu. Mae wedi ceisio cyfyngu ar gostau staff a rheoli gostyngiad yn niferoedd ei staff, gan fynd ar drywydd ei rhaglenni polisi ac ymateb i ddigwyddiadau, yn enwedig pandemig COVID-19. Ar adegau mae'r pwysau hyn o ran y gweithlu wedi effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i gyflawni ei hamcanion ac nid yw rhai swyddogaethau'n gydnerth".*[132]

[132] Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, Medi 2022, tudalen 4

## Canfyddiadau

### Costau staff

**180.** Cynyddodd gweithlu Llywodraeth Cymru yn sylweddol rhwng 1999 a 2010, pan benderfynodd leihau ei chostau gweithredu a nifer ei staff i adlewyrchu'r cyfyngiadau ariannol ar draws y sector cyhoeddus ehangach. Yn unol â hynny, bu gostyngiad cyflym yn niferoedd staff yn y ddwy flynedd ar ôl 2010 oherwydd ymarferion ymadael gwirfoddol. Er y bu rhywfaint o amrywiadau ers hynny, roeddent 9 y cant yn is yn 2021-22 nag yn 2009-10[133].

**181.** Gostyngodd costau staff mewn termau real ar ôl 2009-10 ond maent wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf i'r un lefel â 2009-10 erbyn 2021-22, sy'n golygu bod y gost fesul gweithiwr wedi codi, o ystyried bod y gweithlu'n llai[134]. Er bod cyfraddau cyflog wedi codi llai na chwyddiant, mae cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn ac Yswiriant Gwladol cyflogwyr wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau. Yn ogystal â hyn, mae'r elfennau a ganlyn wedi cyfrannu at y costau uwch hyn:

- Talu cynyddrannau cyflog gwarantedig i weithwyr, nes iddynt gyrraedd brig eu graddfa gyflog (o fewn dwy i chwe blynedd). Cytunwyd ar y polisi hwn ag undebau llafur er mwyn sicrhau cydraddoldeb i staff ar yr un radd.
- Newid yn y cymysgedd graddau, ac mae cyfran y staff mewn rolau uwch wedi cynyddu dros y deng mlynedd diwethaf.

**182.** Pan ofynnwyd iddo i ba raddau y cafodd y gyllideb costau staff ei llywio gan angen, yn hytrach nag adlewyrchu hanfodion gwleidyddol i gynnwys costau cynnal a niferoedd staff, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"The budget is driven by a range of things. Of course it's driven by need. That need can be reactive because things simply arise. We saw that, of course, in the pandemic very significantly, but more recently*

[133] Archwilio Cymru, cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 10
[134] Archwilio Cymru, cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 12

> *we'll have seen it in terms of things like the Ukraine response, where we needed to respond.*
>
> *There is a need driven by requirements that are set for the organisation, and they are absolutely a translation of programme for government expectations. I have a responsibility to lead the response of the organisation to those, although the programme for government is something to be delivered over a five-year period, so there is an aspect of how we would interpret the staff needs based on the delivery timetables in place".* [135]

**183.** Aeth ymlaen i nodi bod yr angen i reoli cyllidebau mewn ffordd ddarbodus hefyd yn dylanwadu ar y gyllideb costau staff[136]. Pan holwyd y Prif Swyddog Gweithredu ynghylch y cynnydd yng nghyfran y staff ar radd uwch rhwng 2009-10 a 2021-22, dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *"… if you look over that period of time, there have been significant shifts across the whole of the civil service, especially as more and more of our processes are online, there's more self-service, there's more automation, and you've seen a shift generally in the workforce from less of some of the more administrative grades up to more senior policy roles".*[137]

**184.** Aeth ymlaen i egluro bod Llywodraeth Cymru yn cynnal system ar gyfer gwerthuso swyddi uwch, sy'n gwerthuso rôl yn seiliedig ar feini prawf safonol fel rhan o broses safonol y diwydiant[138]. O ran dilyniant cyflog cynyddrannol, ac a oedd Llywodraeth y DU yn gweithredu'r un system o ddilyniant cynyddrannol â Llywodraeth Cymru, dywedodd y Prif Swyddog Gweithredu y canlynol:

[135] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraffau 37-38
[136] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 39
[137] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 43
[138] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 45

> *"I think that the underlying principle behind it is how do you ensure that you have a pay system that is fair and equitable for everybody, and minimises issues around gender pay gap and unfair pay systems. So, there are differences, but I think that there is good reason, and it links to the aims of what we're trying to do to ensure fairness".*[139]

## Cydraddoldeb ac amrywiaeth

**185.** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi cyfres o ganfyddiadau perthnasol, gan gynnwys:

- Mae'r gweithlu'n heneiddio'n gyson, gyda 40 y cant o'r staff dros 50 oed a dim ond 9 y cant rhwng 16 a 29 oed[140].
- Cododd cyfran y staff sydd ag anabledd o 4.4 y cant i 5.9 y cant rhwng 2010-11 a 2020-21, gan gyrraedd targed mewnol, ond ymhell islaw'r 22 y cant o'r boblogaeth oedran gweithio yng Nghymru[141].
- Cododd cyfran y staff o leiafrifoedd ethnig heb fod yn wyn o 2.2 y cant i 2.8 y cant dros yr un cyfnod, sy'n islaw'r cyfartaledd o 4.9 y cant[142].
- Gostyngodd y bwlch cyflog rhwng y rhywiau o 7.0 y cant yn 2020-21 i 6.4 y cant yn 2021-22[143].

**186.** Mae'r Cyfrifon yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd ei thargedau ar gyfer dyrchafiadau mewnol: mwy na 50 y cant o ddyrchafiadau i'r uwch-wasanaeth sifil i fod yn fenywod; ac i ddyrchafu staff anabl a staff lleiafrifoedd ethnig ar gyfradd sy'n uwch na'u cyfran o'r boblogaeth[144]. Yn 2021, roedd 71 y cant o ddyrchafiadau mewnol (i fyny o 29 y cant y flwyddyn flaenorol) a 56 y cant o benodiadau allanol i'r uwch-wasanaeth sifil yn fenywod.

---

[139] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 48
[140] Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 16
[141] Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 16
[142] Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 16
[143] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Blynyddol, tudalen 113
[144] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Blynyddol, tudalen 111

**187.** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd ei tharged eto i sicrhau bod 20 y cant o staff sy'n cael eu recriwtio'n allanol yn bobl ag anableddau ac o leiafrifoedd ethnig, gyda'r bwriad y bydd yn cyflawni'r nod hwn erbyn 2026[145]. Pan ofynnwyd iddi am strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni'r nod hwn, gyda chamau ymarferol penodol, dywedodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Pherfformiad Adnoddau Dynol:

> *"… one of the most positive things that we've done, particularly for disabled colleagues, has been around our recruitment adjustment process… that's very much linked to the social model of disability and is candidate-led. So, what that means is it's very much around what the individual needs in terms of removing barriers".*[146]

**188.** Aeth ymlaen i nodi eu bod yn gweithio ar eu 'dull allgymorth' mewn perthynas ag ymgyrchoedd recriwtio, gan weithio gyda mentoriaid cymunedol a cheisio cyngor gan sefydliadau eraill[147].

**189.** O ran cynnydd Llywodraeth Cymru ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y canlynol:

> *"I feel very close, and I would really hope that, over this next couple of years in particular, we would see ourselves going over that threshold, but I sort of feel that I'm slightly dependent on the colleagues who will look for other progression and other career opportunities as well… I'm really pleased that the DG composition is 50:50, because I think that's a really important statement".*[148]

[145] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, Adroddiad Blynyddol, tudalen 111
[146] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 67
[147] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 68
[148] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 71

## Adnoddau staff, recriwtio a lleoli

### Recriwtio ac adnoddau

**190.** Canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol[149]:

- Fod Llywodraeth Cymru wedi rhewi prosesau recriwtio allanol o'r tu allan i'r gwasanaeth sifil ar gyfer staff parhaol am gryn dipyn o'r cyfnod ers 2009-10, ac eithrio ar gyfer rhai rolau arbenigol a rhai uwch swyddi.
- Hyd yn oed ar gyfer swyddi arbenigol, y gall fod yn anodd i reolwyr gael cymeradwyaeth i recriwtio'n allanol, gan olygu bod meysydd megis TGCh wedi ei chael yn anodd llenwi swyddi gwag ac wedi cyflenwi rolau gydag ymgynghorwyr drud.
- Bod trosiant staff (gan gynnwys o'r tu mewn i'r gwasanaeth sifil) wedi bod yn isel o'i gymharu â thueddiadau yn y gwasanaeth sifil ehangach a'r farchnad waith - dim ond 5.3 y cant oedd hyn yn 2021-22, i fyny o 3.4 y cant y flwyddyn flaenorol.

**191.** Canfu'r adroddiad hefyd fod Llywodraeth Cymru wedi ei chael yn anodd sicrhau bod niferoedd staff yn ddigonol i gyflawni ei llwyth gwaith arfaethedig o fewn amserlenni penodol. Mae'r niferoedd staff wedi bod islaw'r terfynau cyfrif pennau a bennwyd yn ganolog ar gyfer pob grŵp o Lywodraeth Cymru[150]. Nodir y bu'r cyfnodau ar adeg Brexit a'r pandemig yn arbennig o heriol.

**192.** Ailstrwythurwyd grwpiau staffio Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2022 i'w gwneud yn fwy cyfartal o ran maint ac i adlewyrchu'r anghenion parhaus[151]. Nododd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad y canlynol:

> *"The Welsh Government will continue to prioritise the alignment of our workforce to priorities set out by the First Minister in the programme for government and ensure the organisation is able to fulfil its statutory duties".*

---

[149] Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 15
[150] Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 20
[151] Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 18

**193.** Tan y pandemig, gwnaeth pob grŵp ei benderfyniadau ei hun ynghylch lleoli staff, yn unol â'i flaenoriaethau ei hun, gyda phenderfyniadau ar recriwtio allanol ac adnoddau ar gyfer grwpiau wedi'u cadw i reolaeth ganolog[152].

**194.** Cafodd rheolaeth ganolog ei hatgyfnerthu yn ystod y pandemig gyda phenderfyniadau ar ddyrannu adnoddau a rheoli staff yn cael eu gwneud gan y Pwyllgor Gweithredol mewn cydweithrediad â'r grwpiau[153]. Cafodd llawer o staff eu hadleoli, ac roedd tua 80 y cant o staff yn gweithio ar y pandemig, naill ai mewn rôl newydd neu rôl a oedd wedi newid yn sylweddol[154].

**195.** Cafodd llawer o'r rheolaeth ganolog gryfach hon ei llacio erbyn mis Ionawr 2022, wrth i'r pwysau a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 lacio. Erbyn mis Ebrill 2022, roedd y grwpiau wedi adennill eu hymreolaeth i raddau helaeth.

**196.** Cyn y pandemig, roedd cystadleuaeth fewnol sylweddol ymhlith staff Llywodraeth Cymru, gan arwain at drosiant sylweddol yn y gweithlu. Cafodd hyn ei atal dros dro yn ystod y pandemig ond mae bellach wedi ailddechrau.

**197.** Cyflwynwyd y Fframwaith Dirprwyo ac Atebolrwydd ym mis Mehefin 2022, er nad yw wedi cael ei weithredu ar unwaith, a dywedodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol wrth y Pwyllgor fod y trefniadau hyn yn cael eu cwblhau rhwng y grwpiau[155]. Yn ei lythyr ar 20 Chwefror 2023, ymhelaethodd yr Ysgrifennydd Parhaol ar rôl y fframwaith, gan nodi'r canlynol:

> *"Gall grwpiau wneud penderfyniadau am adlinio'r gweithlu a recriwtio allanol yn awr, gyda goruchwyliaeth Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys Penaethiaid Proffesiwn sy'n denu'r rhai â'r arbenigedd proffesiynol gofynnol trwy allu recriwtio'n uniongyrchol i'r farchnad allanol…*
>
> *Mae gan ein proffesiynau a'n meysydd arbenigol hyblygrwydd hefyd i fabwysiadu fframwaith recriwtio ac adnoddau sy'n diwallu eu hanghenion. Mae hyn yn cynnwys yr opsiwn, lle bo'n fforddiadwy, i*

152 Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 20
153 Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 21
154 Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 23
155 Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 96

> *recriwtio'n allanol drwy'r llwybr mwyaf priodol – mae gan rai ymarferion recriwtio allanol blynyddol er enghraifft.*
>
> *Mae ein tîm Adnoddau Dynol yn parhau i roi cyngor ac arweiniad ar sut i fynd ati o ran methodoleg asesu a chreu hysbysebion i ddenu pwll amrywiol o ymgeiswyr medrus yn well. Disgwylir hefyd i waith archwilio a gwelliannau sy'n ymwneud ag allgymorth, marchnata a brandio cyflogwyr gefnogi recriwtio llwyddiannus drwy nodi a denu ymgeiswyr â'r sgiliau cywir yn well".*[156]

**198.** Aeth ymlaen i ymhelaethu ar y materion yn ymwneud ag ymreolaeth i recriwtio'n allanol, gan ddweud y canlynol:

> *"Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr heriau penodol sy'n wynebu rhai proffesiynau wrth ddenu a chadw ymgeiswyr profiadol priodol. Rydym wedi ymrwymo i weithio'n agos gyda rheolwyr a phroffesiynau recriwtio i edrych ar y pecyn cyfan o ddenu ymgeiswyr yn ogystal â'r elfennau logistaidd i liniaru rhwystrau posibl a chyrraedd pyllau ehangach o ymgeiswyr".*[157]

**199.** Pan ofynnwyd iddo am y materion yn ymwneud â llenwi rolau arbenigol, esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol eu bod yn ceisio sicrhau'r cydbwysedd cywir o atebolrwydd corfforaethol, gyda rheolaethau cyllideb priodol ar waith, ond hefyd gyda'r rhyddid i rannau o'r sefydliad ganolbwyntio ar y pethau sydd eu hangen arnynt.[158]

**200.** Mewn perthynas â bylchau sgiliau yn y sefydliad, rhoddodd y Prif Swyddog Gweithredu enghraifft o sut yr oeddent yn mynd i'r afael â'r mater o ran sgiliau digidol:

---

[156] Llythyr gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 20 Chwefror 2023
[157] Llythyr gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 20 Chwefror 2023
[158] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 73

> *"I'm working with our chief digital and data officer to understand the skill mix we've got, but also importantly what we need going forward and to have a clear strategy around what we need to do. As everyone knows, the marketplace for digital skills is incredibly competitive at the moment and very hot, and so we need to review what we need as an organisation, but also the way we recruit and reach out to that marketplace… I think there are a number of areas, especially in some of the specialist areas, where we look at how we attract the right people into the organisation".*[159]

**201.** Pan ofynnwyd iddo am rai o'r risgiau i Lywodraeth Cymru, nododd yr Ysgrifennydd Parhaol y diffyg arbenigedd cyfreithiol a pholisi a sut y gallai hyn effeithio ar gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, a dywedodd fod hyn yn fater yr oedd yn ei fonitro'n agos[160].

### Trefniadau dros dro

**202.** Mae gan Lywodraeth Cymru gyfres o fesurau i liniaru pwysau dros dro, gan gynnwys Lwfansau Dyletswyddau Dros Dro, sy'n talu swm ychwanegol i staff ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol neu weithio ar radd uwch am hyd at 12 mis, er bod y trefniadau hyn yn aml wedi parhau am gyfnod hwy yn ymarferol. Yn wir, roedd 13 y cant o staff yn gweithio o dan Lwfans Dyletswyddau Dros Dro, ym mis Ionawr 2020. Gall rheolwyr hefyd drefnu benthyciadau a secondiadau o adrannau eraill Llywodraeth y DU a chyflogwyr nad ydynt yn y gwasanaeth sifil[161]. Os oes angen adnoddau ychwanegol, gall rheolwyr gyflogi staff dros dro a staff asiantaeth ar gontractau cyfnod penodol[162].

**203.** Mynegodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd bryderon am y trefniadau mewnol hyn yn ei adroddiad ar Gyfrifon 2019-20 Llywodraeth Cymru, gan geisio sicrwydd yr ymdriniwyd â gwendidau yn y maes hwn[163]. Yn ei

---

[159] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 93
[160] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 228
[161] Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 24
[162] Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 23
[163] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Llywodraeth Cymru, Argymhelliad 10

hymateb[164], nododd Llywodraeth Cymru ei bod yn gweithio gydag undebau llafur ar Lwfansau Dyletswyddau Dros Dro, gan nodi bod trefniadau secondio wedi'u cryfhau drwy benodi un tîm i ddarparu goruchwyliaeth a pholisi newydd ar weithwyr asiantaeth.

**204.** Eglurodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Pherfformiad Adnoddau Dynol fod y Lwfansau Dyletswyddau Dros Dro wedi bod yn rhan hanfodol o'u hymateb i'r pandemig, gan y bu angen iddynt ddefnyddio'u holl hyblygrwydd i'r effaith fwyaf, gyda rhan allweddol i'r Lwfansau Dyletswyddau Dros Dro yn yr ymdrech honno.[165]

**205.** Mae Llywodraeth Cymru bellach yn gweithredu cynllun Lwfans Dyrchafiad Dros Dro, sydd wedi disodli Lwfansau Dyletswyddau Dros Dro. Cytunwyd ar bolisi a phroses ddiwygiedig ag Undebau Llafur. Wrth i Lywodraeth Cymru bontio o'r ymateb i'r pandemig, eglurodd y Dirprwy Gyfarwyddwr y canlynol:

> *"We have seen quite a drastic reduction in our reliance on temporary promotion allowance and TDA, obviously aligned to that work. Pre pandemic, we were running at just over 800 TDAs at any one time. We did peak at a higher level than that during the pandemic, but, in terms of our TPA arrangements, we currently have about 450 in the organisation, which feels like a much more realistic use of the TPA arrangements".*[166]

**206.** Cadarnhaodd mai'r ffigur uchaf ar gyfer Lwfansau Dyletswyddau Dros Dro oedd 1,100 yn ystod y pandemig[167]. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai ffigur derbyniol ar gyfer y math hwn o drefniad rhwng 400 a 500[168].

---

[164] Llythyr gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 15 Hydref 2021

[165] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 115

[166] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 116

[167] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 118

[168] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 122

## Lles staff a'r arolwg staff

**207.** Ehangodd Llywodraeth Cymru ei chymorth llesiant, cynigiodd opsiynau gweithio hyblyg i staff, a chynhaliodd sawl arolwg i asesu iechyd a llesiant ei staff, mewn ymateb i bwysau uwch a achoswyd gan y pandemig.

**208.** Er gwaethaf y pwysau hyn, roedd canlyniadau'r arolygon yn parhau i fod yn gadarnhaol ar y cyfan[169]:

- Roedd y sgoriau ar gyfer llwyth gwaith, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a mynediad at gyfleoedd dysgu a datblygu yn 2021 fwy neu lai yr un fath â 2018 ac yn well na'r sgoriau ar gyfer 2010.
- Roedd mynegeion yn ymwneud ag ymgysylltu â gweithwyr ac arweinyddiaeth a rheoli newid yn well na'r canlyniadau yn 2010 a 2018, pan gynhaliwyd yr arolwg diwethaf cyn y pandemig.
- Roedd 21 y cant o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad bod ganddynt lwyth gwaith derbyniol.
- Mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch blynyddol wedi amrywio ers 2010, sef rhwng 6.9 ac 8.1 diwrnod gwaith fesul cyflogai. Gostyngodd lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn sydyn i 5.1 diwrnod yn 2020-21 yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, ond cynyddodd i 7.6 diwrnod wrth i'r cyfyngiadau lacio yn 2021-22.

**209.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor fod gan yr arolwg staff, hyd yn oed yn ystod y pandemig, gyfradd ymateb uchel, a nododd fod eu sgoriau fel arfer yn parhau i fod yn uwch na'r gwasanaeth sifil yn fwy cyffredinol[170].

---

[169] Archwilio Cymru, cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 28-29
[170] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 165

## Cynllunio'r gweithlu'n strategol

**210.** Nid yw Llywodraeth Cymru erioed wedi cael strategaeth gweithlu lawn, ond mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ers 2019 i ddatblygu un[171]. Yn anffodus, cafodd mentrau ynghylch hyn eu gohirio gan effaith y pandemig.

**211.** Comisiynwyd adolygiad sylfaenol ym mis Awst 2019, gyda dadansoddiad manwl o'r gweithlu yn rhan o'r ymarfer hwnnw. Gofynnwyd i gyfarwyddwyr wneud sylwadau ar gyfres o ffactorau (gan gynnwys adnoddau, blaenoriaethau a phwysau allanol) a mynegwyd pryderon am ddiffyg cydnerthedd, bylchau mewn arbenigedd a phwysau a grëwyd gan Brexit a rhaglen bolisi heriol[172].

**212.** Sefydlwyd grŵp cyfeirio ar gyfer cynllunio'r gweithlu'n strategol ym mis Tachwedd 2019 i fwrw ymlaen â chanfyddiadau'r adolygiad sylfaenol a datblygu strategaeth gweithlu i'w chymeradwyo gan Weinidogion ym mis Mawrth 2020. Gohiriwyd y gwaith hwn am y rhan fwyaf o 2020 oherwydd y pandemig ac ailddechreuodd ym mis Hydref 2020. Cwblhawyd set o egwyddorion ym mis Mawrth 2021. Tua'r adeg hon, cynhaliwyd ail adolygiad sylfaenol i ddiweddaru'r adolygiad cyntaf. At hynny, lansiodd Llywodraeth Cymru "Dewch i ni Siarad am Ailosod", sef ymarfer ymgysylltu â staff i fyfyrio ar adborth staff ar eu profiadau yn ystod y pandemig[173].

**213.** Cafodd gwaith strategaeth y gweithlu ei ohirio eto yn 2022, er mwyn caniatáu i'r Ysgrifennydd Parhaol newydd ymgynghori â staff yn ehangach. Ar adeg cyhoeddi adroddiad Archwilio Cymru, y bwriad oedd datblygu strategaeth fel rhan o 'Llywodraeth Cymru 2025', sef rhaglen datblygu sefydliadol yr Ysgrifennydd Parhaol[174].

**214.** Yn ei hymateb i'r adroddiad, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cyhoeddi ei strategaeth a'i chynllun gweithredu cychwynnol yn ddiweddarach yn y flwyddyn fel rhan o Lywodraeth Cymru 2025, sef rhaglen newid sefydliadol ehangach.

---

[171] Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 30
[172] Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 30-31
[173] Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 31-32
[174] Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 34

**215.** Nododd yr ymateb nifer o ymrwymiadau a oedd yn berthnasol i agweddau penodol ar yr argymhelliad, gan gynnwys:

- Parhau i flaenoriaethu'r broses o gysoni'r gweithlu â blaenoriaethau a nodir gan y Prif Weinidog yn y Rhaglen Lywodraethu a sicrhau bod y sefydliad yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol.
- Y byddai'r strategaeth yn nodi blaenoriaethau o ran gallu a chynllun datblygu ar gyfer y gweithlu, gan gynnwys mesurau i ymgorffori egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Cyflawni gwelliannau o ran cynllunio'r gweithlu drwy weithredu Fframwaith Dirprwyo ac Atebolrwydd y Gweithlu.
- Cynnwys cynllunio ar gyfer olyniaeth yn y dull craidd o gynllunio'r gweithlu a rheoli talent o fis Ebrill 2023.
- Cysoni â safbwynt Gwasanaeth Sifil y DU o ran hysbysebu swyddi gwag, drwy hysbysebu yn allanol yn ddiofyn ar gyfer penodiadau parhaol i swyddi uwch yn y gwasanaeth sifil, a blaenoriaethu recriwtio allanol ar gyfer graddau is pan fo modd.

**216.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor fod gwahanol elfennau o gynllun y gweithlu ar waith, ond nad oedd dogfen gyffredinol ar waith i ategu'r strategaeth a oedd yn ystyried yr hyn y byddai ei angen gan y gweithlu ac ar gyfer y gweithlu ymhen tair, pump neu ddeng mlynedd[175]. Aeth ymlaen i ddweud eu bod yn gobeithio rhoi hyn ar waith yn y chwe mis nesaf[176]. O ran 'Llywodraeth Cymru 2025', eglurodd y Prif Swyddog Gweithredu y canlynol:

> *"We just launched the delivery plan last week, which details the key things that we'll be doing over the next three to six months and also the ambition for the future. What we're looking to do is then— it's an interim plan and we'll then look to go back out to staff in three months' time and show them exactly what we have achieved, but also*

[175] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 190
[176] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 191

> *what the next steps are that we're looking to do. So, it's at that very early stage in terms of publishing the plan, but we delivered that on time, and then a number of those things are in train".* [177]

## Gwybodaeth reoli

**217.** Wrth ymateb i argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol ar wybodaeth reoli, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> *"We are near completion of an upgrade to our management information systems that will put in place a stable platform with the capabilities required to improve the collection, analysis and use of HR management information at all levels. This programme will deliver an upgrade of two corporate systems – recruitment and HR Information System - by January 2023, with a programme of developments planned thereafter".*

**218.** Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfres o systemau gwybodaeth annibynnol nad ydynt wedi'u hintegreiddio ac sydd â gallu adrodd cyfyngedig. Fel y cyfryw, maent yn dibynnu ar wybodaeth o ffynonellau nad ydynt yn cael eu cynnal yn ganolog. Mae rhywfaint o wybodaeth yn parhau i gael ei dal â llaw, yn fwyaf nodedig cofnodion gwyliau blynyddol gweithwyr, er nad oes system ganolog ar gyfer cofnodi gwrthdaro buddiannau posibl[178].

**219.** Mae adroddiadau archwilio mewnol wedi nodi gwendidau mewn systemau gwybodaeth ar gyfer taliadau goramser a chofnodion ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus i economegwyr. Daeth Archwilio Cymru i'r casgliad bod y bylchau mewn data a systemau gwybodaeth tameidiog yn gwneud y broses o gynllunio'r gweithlu'n strategol yn anos[179].

**220.** Mae system Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru, Snowdrop, yn hen ac nid yw'n cael ei chefnogi gan ei datblygwr mwyach. Roedd trefniadau wrth gefn ar waith wrth i system newydd gael ei datblygu, a fydd yn cael ei chwblhau a'i

[177] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 217
[178] Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 37-39
[179] Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 40

chyflwyno erbyn mis Ionawr 2023[180]. Mae hyn bellach wedi'i ohirio tan ddechrau haf 2023[181]. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei chynnydd[182]. Eglurodd y Dirprwy Gyfarwyddwr Gweithrediadau a Pherfformiad Adnoddau Dynol y canlynol:

> *"We took a risk-based approach to the approach we've taken on our systems. So, although the HR system that we currently use is out of support, we have had that system for a number of years so we had quite a degree of in-house capability of using that system".[183]*

**221.** Yn ei lythyr ar 20 Chwefror 2023, ymhelaethodd yr Ysgrifennydd Parhaol ar y mater hwn, gan nodi'r canlynol:

> *"Mae gan brosiectau uwchraddio systemau AD gynlluniau manwl sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r holl ddyddiadau cyflwyno a rannwyd ag Archwilio Cymru o'r blaen ac yn fwy diweddar â PAPAC, yn dal yn ddangosol eu natur ac yn cynnig amcangyfrif gorau yn seiliedig ar y manylion a ddelid bryd hynny. Wrth inni roi'r systemau newydd ar waith, rydym yn parhau i ddefnyddio ein systemau presennol ar gyfer parhad gwasanaeth…*
>
> *Mae sawl ffactor yn effeithio ar gynllunio cywir. Mae oedi wedi digwydd oherwydd adnoddau a darparu gwaith hanfodol yn ystod y pandemig, sydd wedi effeithio ar weithgareddau â blaenoriaeth ar draws Llywodraeth Cymru"[184].*

[180] Archwilio Cymru, Cynllunio a rheoli'r gweithlu gan Lywodraeth Cymru, tudalen 39
[181] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 252
[182] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 256
[183] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 2 Chwefror 2023, paragraff 266
[184] Llythyr gan Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 20 Chwefror 2023

## Ein barn ni

**222.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn y maes hwn, sy'n gwneud cyfres o argymhellion gwerthfawr. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r argymhellion hyn ac yn ategu eu cynnwys.

**223.** Mae'r adroddiad yn nodi cyfres o ddatblygiadau cadarnhaol yn Llywodraeth Cymru o ran staffio, yn enwedig ei chynlluniau cymorth llesiant estynedig a'i chymorth i gyflogeion yn ystod cyfnod heriol COVID-19. Yn wir, mae'n galonogol gweld bod mynegeion llesiant staff yn parhau i fod yn gadarnhaol, er gwaethaf y pwysau ychwanegol y mae'r sefydliad yn eu hwynebu.

**224.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gydraddoldeb a'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod y sefydliad yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol o ran anabledd ac ethnigrwydd. Mae'n hanfodol bwysig bod Llywodraeth Cymru yn dangos ei bod yn gynrychioliadol o boblogaeth Cymru yn ehangach a dylai ddangos tystiolaeth o'i chanlyniadau a'i gweithredoedd mewn perthynas â'i dyletswydd economaidd-gymdeithasol.

**225.** Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Archwilydd Cyffredinol y dylai Llywodraeth Cymru flaenoriaethu datblygiad ei strategaeth ar gyfer y gweithlu. Er bod oedi yn ystod y pandemig yn ddealladwy, dylai'r gwaith i ddatblygu'r strategaeth fynd rhagddo nawr ar unwaith. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r Archwilydd Cyffredinol ar y meysydd ffocws a awgrymir ar gyfer cynllun y gweithlu ac yn gofyn i Lywodraeth Cymru barhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynglŷn â'i chynnydd.

**226.** Er bod datblygiad y Fframwaith Dirprwyo ac Atebolrwydd yn galonogol, mae'r Pwyllgor yn parhau i bryderu bod Llywodraeth Cymru yn dibynnu'n ormodol ar ddatrysiadau staffio dros dro drud, gan gynnwys staff asiantaeth ar gontractau cyfnod penodol, i fodloni pwysau staffio.

**227.** Cododd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd bryderon tebyg gyda Llywodraeth Cymru wrth graffu ar Gyfrifon 2019-20, ac er ei bod yn galonogol bod y defnydd o Lwfansau Dyletswyddau Dros Dro a Lwfansau Dyrchafiad Dros Dro yn lleihau, wrth i Gymru ddod allan o'r pandemig, rhaid gwneud mwy i sicrhau y gall adrannau fod yn hyblyg wrth recriwtio staff addas.

Mae'r Pwyllgor yn gobeithio, drwy weithredu cynllun gwaith sylweddol, y bydd dibyniaeth Llywodraeth Cymru ar ddatrysiadau dros dro yn lleihau, gan ddeall ar yr un pryd y byddant yn angenrheidiol, ac yn werthfawr, mewn rhai achosion.

**228.** Mae'r dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Parhaol y gallai diffyg staff cyfreithiol a pholisi arbenigol effeithio ar gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu yn arwydd gofidus o’r bylchau mewn sgiliau yn y sefydliad. Yn wir, mae’r Pwyllgor yn pryderu yn fwy cyffredinol ynghylch sut y bydd Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â'r bylchau mewn sgiliau hyn yn ei gweithlu i sicrhau bod yr arbenigedd cywir ar gael i gyflawni ei swyddogaethau.

**229.** Ar 22 Mehefin 2023, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Pwyllgor i godi pryderon am gapasiti'r gwasanaeth sifil a chyflymder y broses o ddatblygu a gweithredu polisïau. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro'r materion hyn wrth graffu ar gyfrifon yn y dyfodol.

**230.** Mae angen i strategaeth y gweithlu a'r cynllun cyflawni sicrhau bod digon o staff, o ran sgiliau a niferoedd, ar waith i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu, gan gyflawni dyletswyddau statudol y sefydliad ar yr un pryd. Rhaid i unrhyw gynllun fod yn realistig ac yn dryloyw yn ei asesiad o'r gofyniad adnoddau a sgiliau i fodloni disgwyliadau'r Gweinidogion ac ymdrin â sut yr ymdrinnir â diffygion drwy flaenoriaethu neu arbedion effeithlonrwydd. Dylai'r strategaeth fod yn glir ynghylch y gofynion penodol hyn, nid dim ond canolbwyntio ar egwyddorion ehangach sy’n ymwneud ag arweinyddiaeth a diwylliant.

**231.** Mae’r Pwyllgor yn cytuno ag argymhelliad yr Archwilydd Cyffredinol y dylid adolygu Fframwaith Dirprwyo ac Atebolrwydd y Gweithlu ar ôl dwy flynedd, gan ei bod yn hanfodol gwerthuso ei effeithiolrwydd i sicrhau bod Llywodraeth Cymru mor hyblyg ac ymatebol â phosibl.

**232.** Rydym yn pryderu am yr oedi wrth weithredu system gwybodaeth reoli Adnoddau Dynol newydd. Fodd bynnag, cydnabyddir ei bod yn bwysig bod y system newydd yn ddiogel ac yn ddibynadwy erbyn iddi gael ei chyflwyno. Rydym yn gwerthfawrogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am ei chynnydd a byddem yn croesawu diweddariad manwl mewn ymateb i'r adroddiad hwn.

**Argymhelliad 23.** Rydym yn argymell y dylai'r gwaith o weithredu cynllun gweithlu newydd Llywodraeth Cymru fynd rhagddo'n gyflym, gan ganolbwyntio ar y meysydd a awgrymwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Dylid rhannu cynnydd Llywodraeth Cymru yn y maes hwn â'r Pwyllgor bob chwe mis nes bod y cynllun wedi'i gwblhau. Dylid rhannu'r cynllun terfynol ar gyfer y gweithlu â'r Pwyllgor pan fydd yn barod.

**Argymhelliad 24.** Mae'r Pwyllgor yn gofyn am ddiweddariadau bob chwe mis ar weithrediad y Fframwaith Dirprwyo ac Atebolrwydd, o ystyried ein pryderon ynghylch cyflymder y broses weithredu. Byddem hefyd yn croesawu cadarnhad bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnal adolygiad ffurfiol o'i heffaith, ddiwedd 2023-24. Os felly, dylid rhannu copi o'r adolygiad hwn â'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 25.** Tudalen Dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am weithrediad y system gwybodaeth reoli Adnoddau Dynol newydd. Os oes rhagor o oedi o ran gweithredu, dylid hysbysu'r Pwyllgor o hyn a rhoi rhesymau iddo dros yr oedi.